

# Crynodeb o gynigion Papur Gwyn Llywodraeth y DU ar berthynas y DU â'r UE yn y dyfodol

Awst 2018



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliad.cymru/ymchwil](http://www.cynulliad.cymru/ymchwil)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Ymchwil**  
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**Tŷ Hywel**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6315**  
Twitter: **@SeneddYmchwil**  
Blog: **SeneddYmchwil.blog**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Crynodeb o gynigion Papur Gwyn Llywodraeth y DU ar berthynas y DU â'r UE yn y dyfodol

**Awduron:** Manon George, Nia Moss, Elfyn Henderson, Katy Orford, Robin Wilkinson, Phil Boshier, Philippa Watkins, Chloe Corbyn, Lorna Scurlock ac Andrew Minnis

**Dyddiad:** 28 Awst 2018

**Crynodeb:** Ar 12 Gorffennaf 2018, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Bapur Gwyn yn amlinellu ei chynigion ar gyfer y berthynas rhwng y DU a'r UE ar ôl Brexit. Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi cyhoeddi cyfres o flogiau sy'n crynhoi'r Papur Gwyn ac yn edrych yn fanwl ar oblygiadau'r cynigion i feysydd polisi allweddol. Mae'r papur hwn yn dwyn ynghyd bob blog yn y gyfres i un papur ymchwil. Mae'r blogiau wedi'u cynnwys fel yr ysgrifennwyd hwy'n wreiddiol, ac roeddent yn gywir ar y dyddiadau y cyhoeddwyd hwy gyntaf.





---

## Cynnwys

<b>1.</b>	<b>Crynodeb o'r cynigion .....</b>	<b>6</b>
<b>2.</b>	<b>Cytundebau Cyd-gysylltiad .....</b>	<b>11</b>
<b>3.</b>	<b>Y sector bwyd-amaeth.....</b>	<b>14</b>
<b>4.</b>	<b>Diogelu'r amgylchedd.....</b>	<b>19</b>
<b>5.</b>	<b>Yr effaith ar yr economi .....</b>	<b>24</b>
<b>6.</b>	<b>Addysg bellach ac addysg uwch.....</b>	<b>30</b>
<b>7.</b>	<b>Iechyd .....</b>	<b>35</b>
<b>8.</b>	<b>Cyfranogiad parhaus yn asiantaethau'r UE .....</b>	<b>40</b>
<b>9.</b>	<b>Ynni .....</b>	<b>44</b>
<b>10.</b>	<b>Pysgodfeydd .....</b>	<b>50</b>
<b>11.</b>	<b>Trafnidiaeth .....</b>	<b>56</b>

# 1. Crynodeb o'r cynigion

Cyhoeddwyd: 17 Gorffennaf

Ar 12 Gorffennaf, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei Phapur Gwyn ar **Y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol** (Saesneg yn unig). Mae'r papur yn fwy na 100 o dudalennau ac mae'n nodi'n fanwl gynigion Llywodraeth y DU ar gyfer partneriaeth economaidd yn y dyfodol, partneriaeth ddiogelwch yn y dyfodol, ar gydsynio cydweithredol mewn meysydd fel arloesi a physgodfeydd ac ar sut y dylid llywodraethu'r berthynas yn y dyfodol. Dyma'r cyntaf mewn cyfres o flogiau a fydd yn edrych yn fanwl ar ba elfennau o'r Papur Gwyn sy'n debygol o fod o ddiddordeb mwyaf i Gymru.

Ymhen naw mis y bydd y DU yn ymadael yn ffurfiol â'r UE, ar 29 Mawrth 2019. Er y bydd nifer o'r cynigion yn y Papur Gwyn yn hanfodol ar gyfer y trafodaethau ar y Cytundeb Ymadael, mae'n debyg y caiff llawer o fanylion gweithredol o ran sut y bydd y berthynas yn y dyfodol yn gweithio eu trafod yn ystod y cyfnod pontio arfaethedig.

## Y Bartneriaeth Economaidd

Prif nodwedd cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer partneriaeth economaidd yn y dyfodol yw creu Ardal Masnach Rydd newydd ar gyfer nwyddau, gan gynnwys nwyddau amaeth-bwyd. Mae'r DU yn cynnig mai nodweddion allweddol partneriaeth economaidd fyddai:

- Dim tariffau ar nwyddau a weithgynhyrchir a nwyddau amaeth-bwyd a dim cwotâu na gofynion rheolau tarddiad ar gyfer nwyddau'r DU-UE.
- Llyfr rheolau cyffredin ar gyfer nwyddau, gan gynnwys nwyddau amaeth-bwyd, ond dim ond y rheolau hynny sy'n ymwneud â'r angen am wiriadau ar y ffin. Mae'r papur yn nodi y byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r DU wneud ymrwymiad ymlaen llaw i gysoni rheolau â'r UE, a byddai hefyd yn atal gosod ffin galed rhwng Iwerddon a Gogledd Iwerddon.
- Trefniad Tollau Hwylusedig (FCA) newydd pan fyddai'r DU yn codi prisiau'r DU ar gyfer nwyddau sy'n dod i mewn i'r DU ar gyfer marchnad y DU a thariffau'r UE ar gyfer nwyddau sy'n dod i mewn i'r DU ond sydd wedi'u pennu ar gyfer marchnad yr UE.

- Cyfranogiad y DU mewn asiantaethau allweddol o'r UE sy'n chwarae rhan arwyddocaol wrth osod nwyddau ar y farchnad, fel yr Asiantaeth Feddyginiaethau Ewropeaidd, yr Asiantaeth Gemegion Ewropeaidd a'r Asiantaeth Diogelwch Hedfanaeth Ewropeaidd.
- Fframwaith newydd ar symudedd a fyddai'n caniatáu i ddinasyddion y DU a'r UE deithio at ddibenion twristiaeth ac at ddibenion busnes tymor byr heb fod angen fisas.
- Cytuno i fabwysiadu'r un system a rheolau ar gymorth gwladwriaethol, a chydweithrediad agos o ran rheoleiddio cystadleuaeth.
- Cytundeb newydd ar wasanaethau sy'n mynd ymhellach na threfniadau presennol yr UE â gwledydd trydydd parti, ond na fyddai'n cyfateb i'r mynediad presennol i'r farchnad sydd gan sector gwasanaeth y DU. Byddai hwn yn cynnwys cytundeb ar gydnabod ar y ddwy ochr gymwysterau proffesiynol mewn meysydd fel gofal iechyd a'r sector milfeddygol.
- Ymrwymiad i gynnal y lefel isaf o ran safonau amgylcheddol, safonau newid yn yr hinsawdd a safonau amddiffyniadau cymdeithasol, ac yn arbennig cymal nad yw'n atchweliad ar safonau amgylcheddol a safonau llafur domestig.
- Cytundeb gwasanaethau digidol.
- Cydweithredu ar feysydd economaidd-gymdeithasol eraill gan gynnwys cludiant gyda chytundeb ar hedfanaeth, cludiant ar y ffyrdd, rheilffyrdd, diogelwch y môr.
- Gallu'r DU i geisio polisi masnach annibynnol y tu allan i'r UE lle gallai osod ei thariffau ei hun ond y byddai'r llyfr rheolau cyffredin yn cyfyngu arno o ran pryd y gallai ganiatáu safonau gwahanol i'r UE o ran cynnyrch.

## Y Bartneriaeth Ddiogelwch

Mae'r Papur Gwyn yn nodi cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer partneriaeth ddiogelwch newydd â'r UE. Byddai hyn yn cynnwys y DU yn cymryd rhan mewn rhai o asiantaethau diogelwch cyfredol yr UE ond ar delerau gwahanol; mynediad at systemau diogelwch allweddol, cydweithio parhaus ar amddiffyn, gan gynnwys ym maes ymchwil a datblygu, cytundebau ar estraddodi, parhau i gymryd rhan yn y Rhaglen Lloeren Galileo a chydweithredu mewn meysydd fel diogelwch iechyd.

Yn benodol, mae'n awgrymu perthynas barhaus ag asiantaethau iechyd yr UE, fel Canolfan Atal a Rheoli Clefydau Ewrop, a'r gallu i Iechyd Cyhoeddus Cymru ddarparu hyfforddiant Microbioleg Iechyd.

## Cydsyniadau cydweithredol

Mae'r Papur Gwyn yn cynnig 'cydsyniadau cydweithredol' mewn pum maes allweddol:

- Gwyddoniaeth ac arloesedd;
- Diwylliant ac addysg;
- Cymorth rhyngwladol a datblygiad;
- Ymchwil amddiffyn a gallu amddiffyn; a'r
- Gofod.

O ran y cytundebau cydweithredol ar wyddoniaeth ac arloesedd, a diwylliant ac addysg, dywed y byddai'r rhain yn ceisio cynnwys mynediad at rai o raglenni cyllido presennol yr UE fel Horizon, Erasmus+ ac Ewrop Greadigol yn ogystal â chytundebau ar gyfranogiad y DU mewn rhwydweithiau a fforymau'r UE.

Mae'r Papur Gwyn hefyd yn cynnwys cynigion ar gyfer cytuno ar ddull ar gyfer trafodaethau blynyddol ar gyfleoedd pysgota rhwng y DU a'r UE a fyddai'n nodi trefniadau ar gyfer mynediad cyfatebol i ddyfroedd y naill a'r llall. Mae'r Papur Gwyn yn datgan y bydd yn parhau i weithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig ar y cynigion hyn.

## Llywodraethu a Threfniadau Sefydliadol

Mae'r Papur Gwyn yn datgan, er mwyn i berthynas mor agos a manwl â hyn weithio yn y dyfodol, bydd angen trefniadau sefydliadol newydd. Mae'n awgrymu y gallai'r berthynas gyffredinol ar gyfer y cytundeb fod yn gytundeb cysylltiedig. Mae gan yr UE nifer o'r rhain eisoes ar waith gyda gwledydd trydydd parti. Bydd yr ail flog yn y gyfres hon yn edrych yn fwy manwl ar y rhain a sut maent yn gweithio.

Mae'r Papur yn cynnig sefydlu corff llywodraethu newydd yr Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig i reoli'r berthynas yn y dyfodol. Byddai hwn yn fforwm i weinidogion ac arweinwyr gyfarfod bob dwy flynedd. Mae'r Papur Gwyn yn nodi y byddai Llywodraeth y DU yn cynrychioli'r DU gyfan ar y corff hwn ond yn ystyried barn y llywodraethau datganoledig.



Byddai Cyd-bwyllgor a fyddai'n cynnwys swyddogion y DU a'r UE yn cwrdd yn amlach ac yn trafod materion manwl ynghylch gweithredu'r berthynas, ac yn ceisio datrys unrhyw anghydfodau ynglŷn â'i gweithredu yn anffurfiol. Byddai nifer o is-bwyllgorau technegol hefyd yn cael eu sefydlu. Pan na ellir datrys anghydfodau mewn Cyd-bwyllgorau, mae'r Papur Gwyn yn cynnig system ar gyfer cymrodeddu annibynnol. Bydd gennym flog yn y dyfodol yn edrych yn fwy manwl ar y trefniadau llywodraethu hyn.

## Rôl Senedd y DU a'r deddfwrfeydd datganoledig

Dywed y Papur Gwyn, er y byddai'r DU yn ymrwymo o flaen llaw i lyfr rheolau cyffredin, y gallai Senedd y DU benderfynu ynghylch sut y gweithredir rheolau cyffredin yng nghyfraith y DU a dewis peidio â gweithredu deddfau newydd. Wrth ddewis peidio â mabwysiadu rheolau cyffredin newydd, byddai Senedd y DU yn derbyn y byddai hyn yn cael effaith ganlyniadol ar fynediad y DU at farchnad yr UE. Mae Pennod 4 y papur yn nodi dull arfaethedig ar gyfer cynnwys Senedd y DU.

O ran y deddfwrfeydd datganoledig, mae'r Papur yn nodi y bydd rhai newidiadau i reolau cyffredin mewn meysydd o gymhwysedd datganoledig. Yn y meysydd hyn, dywed y bydd rôl ar gyfer llywodraethau a deddfwrfeydd datganoledig ac y bydd Llywodraeth y DU yn gweithio gyda llywodraethau datganoledig i sicrhau bod 'prosesau yn cael eu rhoi ar waith sy'n adlewyrchu'r setliad datganoli' ac yr adlewyrchir newidiadau i reolau cyffredin yn y gyfraith ar draws y Deyrnas Unedig. Nid yw'r Papur yn nodi a fydd, na sut y bydd, yn ymgynghori â'r deddfwrfeydd datganoledig eu hunain ynglŷn â'r prosesau hyn.

## Materion allweddol i Gymru

Er y bydd pob elfen o'r berthynas â'r UE yn y dyfodol yn effeithio ar ddinasyddion ac economi Cymru, mae rhai o'r cwestiynau allweddol y mae'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru yn debygol o'u gofyn ynghylch cynigion y Papur Gwyn yn cynnwys:

- A fydd y cynigion ar gyfer y bartneriaeth economaidd yn osgoi ffin galed ym Môr Iwerddon ac felly'n osgoi effeithiau ar borthladdoedd Cymru?
- Sut y bydd y Trefniad Tollau Hwylusedig arfaethedig yn gweithio'n ymarferol, a pha effaith y gallai hwn ei chael ar borthladdoedd, meysydd awyr a chlodwyr ffyrdd Cymru?
- A fydd y bartneriaeth economaidd newydd yn caniatáu mynediad parhaus ar gyfer ffermwyr a physgotwyr Cymru i farchnad yr UE?

- Pa rôl fydd gan y llywodraethau a'r deddfwrfeydd datganoledig wrth lunio a gwneud penderfyniadau am y llyfr rheolau cyffredin?
- Pe bai Senedd y DU yn dewis peidio â mabwysiadu rheolau cyffredin newydd, ond bod Cymru a/neu yr Alban yn dewis gwneud hynny, beth fyddai goblygiadau hyn yn ymarferol?
- Beth fydd goblygiadau'r cynigion ar ddiogelwch iechyd, trefniadau cyfatebol ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac aelodaeth o'r Asiantaeth Feddyginiaethau Ewropeaidd i'r GIG i Gymru?
- Beth fydd effaith y cynigion o ran cydsynio cydweithredol ym maes ymchwil ac addysg, a symudedd ieuenctid a myfyrwyr ar brifysgolion a myfyrwyr Cymru?

Byddwn yn edrych yn fanylach ar rai o'r cwestiynau hyn, ac eraill, yng ngweddill y gyfres hon o flogiau ar y Papur Gwyn a'i gynigion ar gyfer y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol.

Awdur: Nia Moss

Dolen i'r erthygl ar-lein: **Y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol:**  
**Llywodraeth y DU yn cyhoeddi ei chynigion o ran ei pherthynas â'r UE yn y dyfodol**

## 2. Cytundebau Cyd-gysylltiad

Cyhoeddwyd: 18 Gorffennaf

Ar 12 Gorffennaf, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei Phapur Gwyn ar y **Berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol**. I gael trosolwg o'r cynigion a rhai o'r materion allweddol i Gymru, gweler **ein blog blaenorol**.

Er mwyn i'r berthynas newydd rhwng y DU a'r UE weithio, mae'r Papur Gwyn yn nodi y bydd angen trefniadau sefydliadol ar y cyd newydd ac mae'n awgrymu y gallai'r trefniadau hyn fod ar ffurf Cytundeb Cyd-gysylltiad. Mae nifer o Gytundebau Cyd-gysylltiad ar waith ar hyn o bryd rhwng yr UE a thrydydd gwledydd. Bydd y blog hwn yn edrych ar beth yw Cytundeb Cyd-gysylltiad, pam mae'r UE yn ceisio'r cytundebau hyn a pha gytundebau sydd ar gael ar hyn o bryd.

### Beth yw Cytundeb Cyd-gysylltiad?

Cytundeb dwyochrog rhwng yr UE a thrydedd wlad (heb fod yn yr UE) yw Cytundeb Cyd-gysylltiad sy'n creu fframwaith ar gyfer cydweithredu. Mae'r sail gyfreithiol ar gyfer Cytundeb Cyd-gysylltiad, fel y'i diffinnir **yn Erthygl 217 o Gytundeb Swyddogaethau'r UE**, yn darparu ar gyfer cyd-gysylltiad sy'n cynnwys hawliau a rhwymedigaethau cyfatebol, camau gweithredu cyffredin a gweithdrefnau arbennig.

Yn ôl y **Sefydliad Llywodraeth**, mae'r UE yn defnyddio Cytundebau Cyd-gysylltiad i greu 'cysylltiadau breintiedig' gyda gwledydd nad ydynt yn aelodau. Felly, bydd Llywodraeth y DU yn gobeithio gweld yr UE yn defnyddio Cytundeb Cyd-gysylltiad i sefydlu Ardal Fasnach Rydd ar gyfer nwyddau, creu partneriaeth diogelwch newydd a darparu ar gyfer cytundebau cydweithredol mewn meysydd megis gwyddoniaeth ac arloesedd, diwylliant ac addysg, a gofod, ymhlith pethau eraill.

**Yn ystod cyfarfod o'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol** ym mis Ionawr 2018, disgrifiodd Dr Tobias Lock o Brifysgol Caeredin Gytundeb Cyd-gysylltiad fel rhywbeth "yn y canol" rhwng 'opsiwn Norwy' (aelodaeth o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd) ac 'opsiwn Canada' (cytundeb economi a masnach a drafodir fesul pennod). Gwneir y pwynt hwn yn glir hefyd yn **y graffig a gyflwynwyd gan Michel Barnier** i'r Penaethiaid Gwladwriaethau a Llywodraethau yn y Cyngor Ewropeaidd ar 15 Rhagfyr 2017, sy'n defnyddio'r Wcráin fel enghraifft o'r berthynas y gall trydydd wlad ei chael gyda'r UE o dan Gytundeb Cyd-gysylltiad.

## Pa Cytundebau Cyd-gysylltiad sydd ar hyn o bryd?

Ar hyn o bryd mae gan yr UE dros 20 o Cytundebau Cyd-gysylltiad, gan gynnwys:

- gydag aelodau **Partneriaeth y Dwyrain** (Georgia, Moldofa a'r Wcráin);
- gydag aelodau'r **Partneriaeth Ewro-Canoldir** (Algeria, yr Aifft, Israel, Gwlad Iorddonen, Libanus, Moroco, Palestina, Tiwnisia a Thwrci);
- **Cytundebau Cyd-gysylltiad a Sefydlogi** gyda **Gwledydd Gorllewin y Balcan** (Albania, Bosnia a Herzegovina, Kosovo, Macedonia, Montenegro a Serbia); a
- **Chytundeb Cyd-gysylltiad Canolbarth America yr UE** (gan gynnwys Costa Rica, El Salvador, Guatemala, Honduras, Nicaragua a Panama).

## Pam mae'r UE yn ceisio Cytundebau Cyd-gysylltiad?

Nid yw pob Cytundeb Cyd-gysylltiad yn ateb yr un diben, gan fod nifer o resymau pam y gall yr UE fod am geisio Cytundeb Cyd-gysylltiad gyda thrydedd wlad.

Sefydlwyd Cytundebau Cyd-gysylltiad yn wreiddiol gan yr UE i baratoi gwledydd nad oeddent yn aelodau ar gyfer eu derbyn. Yng nghyd-destun derbyniad i'r UE a'r **broses o ehangu'r UE**, mae Cytundebau Cyd-gysylltiad yn gweithredu fel sail ar gyfer gweithredu'r broses dderbyn. Mae Cytundebau Cyd-gysylltiad at y diben hwn yn bodoli ar hyn o bryd gyda **Gwledydd Gorllewin y Balcan** a **Thwrci**.

Yn fwy diweddar, mae'r UE wedi defnyddio Cytundebau Cyd-gysylltiad ar gyfer set ehangach o ddibenion, gan gynnwys datblygu cysylltiadau gwleidyddol ac economaidd hirdymor mwy dwys â thrydydd gwledydd nad ydynt yn ymgeiswyr i gael eu derbyn i'r UE, er enghraifft **Cytundeb Cyd-gysylltiad Wcráin-UE**.

At hynny, defnyddir Cytundebau Cyd-gysylltiad hefyd i wella masnach gyda gwledydd nad ydynt yn aelodau sydd heb unrhyw uchelgais o gael mynediad i'r UE nawr nac yn y dyfodol. Nid oes angen i'r siroedd hyn fod yn rhan o **Bolisi Cymdogaeth Ewrop** na bod wedi'u lleoli yn agos yn ddaearyddol i'r UE. Er enghraifft, mae'r UE **wrthi'n trafod cytundeb masnach deuranbarthol gyda'r pedair wladwriaeth a sefydlodd Mercosur** – Ariannin, Brasil Paraguay ac Uruguay – fel rhan o Gytundeb Cyd-gysylltiad ehangach rhwng y ddau ranbarth. **Mae'r Comisiwn Ewropeaidd** yn gobeithio y bydd y Cytundeb Cyd-gysylltiad hwn yn sicrhau gostyngiad mewn tariffau ar nwyddau a gynhyrchir yn Aelod-wladwriaethau'r UE a gaiff eu hallforio i wladwriaethau Mercosur, yn ogystal â

---

Ileihad mewn rhwystrau nad ydynt yn dariffau drwy symleiddio'r gweithdrefnau tollau ac alinio'n well â safonau a rheoliadau technegol.

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

Nid yw'r UE wedi ymateb yn ffurfiol i gynigion Llywodraeth y DU eto. Fodd bynnag, pan roddodd Guy Verhofstadt, cydgysylltydd Brexit Senedd Ewrop, **dystiolaeth** i Bwyllgor Ymadael â'r UE Tŷ'r Cyffredin ar 20 Mehefin, dywedodd mai model o ddewis Senedd Ewrop ar gyfer partneriaeth yn y dyfodol yw i'r DU a'r UE lofnodi Cytundeb Cyd-gysylltiad:

We [the European Parliament] think it has to be an association agreement that is foreseen in our treaties in Articles 8 and 217. On the one hand, that gives an enormous flexibility, because an association agreement can be very narrow; you can limit yourself only to trade, for example. In an association agreement you can be very broad. You can also put cooperation on foreign and security policy in it. It is flexible and precise at the same time, because you are going to create one governance structure and you are going to create not only one governance structure but also one cycle of ratification.

Yn ôl Mr Verhofstadt:

The advantage of an association agreement is that once it is approved by your side and by the European institutions, the Council and Parliament, it is applicable in advance; you do not need to wait for ratification by the other 27 member states, which can take some time.

Serch hynny, fel y nodwyd yn y Papur Gwyn, 'the legal base that would need to be cited under the EU Treaties would be for the EU to determine' a byddai manylion am y cytundeb yn ddarostyngedig i'r drafodaeth â'r UE. Yn flaenorol, disgrifiodd Mr Verhofstadt y cynnig o Gytundeb Cyd-gysylltiad fel ymgais i greu pont rhwng llinellau coch Llywodraeth y DU ac egwyddorion yr Undeb Ewropeaidd. Rhaid aros i weld sut y bydd yr UE yn ymateb i gynigion Llywodraeth y DU ac a ydynt yn pontio safbwyntiau a buddiannau'r ddau barti.

Awdur: Manon George

Dolen i'r erthygl ar-lein: **Perthynas y DU â'r UE yn y Dyfodol: Cytundebau Cyd-gysylltiad**

## 3. Y sector bwyd-amaeth

Cyhoeddwyd: 26 Gorffennaf

Dyma'r erthygl ddiweddaraf mewn cyfres sy'n edrych ar Bapur Gwyn Llywodraeth y DU ar y **Berthynas rhwng y DU a'r UE yn y Dyfodol**, a gyhoeddwyd ar 12 Gorffennaf. I gael trosolwg cyffredinol o'r cynigion, darllenwch ein **herthygl blog flaenorol**.

Mae'r erthygl hon yn edrych yn benodol ar elfennau'r Papur Gwyn sydd fwyaf perthnasol i'r sector bwyd-amaeth ac yn crynhoi'r ymateb gan y sector, Llywodraeth Cymru ac, yn hollbwysig, yr UE.

### Y bartneriaeth economaidd

Un o brif nodweddion y Papur Gwyn yw'r bartneriaeth economaidd arfaethedig rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. Rhan allweddol o'r bartneriaeth economaidd yw creu ardal masnach rydd newydd ar gyfer nwyddau, gan gynnwys nwyddau bwyd-amaeth.

Mae'r cynigion yn cynnwys llyfr rheolau cyffredin ar gyfer nwyddau bwyd-amaeth sy'n canolbwyntio'n bennaf ar reolau y mae'n rhaid eu gwirio wrth y ffin. Mae'r papur yn dweud y byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r DU wneud ymrwymiad ymlaen llaw i gysoni rheolau â'r UE. Byddai'r DU yn ceisio cymryd rhan ym mhwyllgorau technegol perthnasol yr UE sydd â rôl wrth lunio a gweithredu rheolau sy'n rhan o'r llyfr rheolau cyffredin, er na fyddai ganddi hawliau pleidleisio.

Mae'r papur yn gosod y rheolau sy'n gymwys i gynhyrchion bwyd-amaeth mewn tri chategori:

- Y rhai y mae'n rhaid eu gwirio wrth y ffin, gan gynnwys rheolau i sicrhau iechyd pobl, anifeiliaid a phlanhigion;
- Y rhai sy'n ymwneud â pholisi bwyd ehangach ac nad oes angen eu gwirio wrth y ffin, gan gynnwys rheolau labelu; ac
- Y rhai sy'n ymwneud â dull cynhyrchu domestig, gan gynnwys y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC).

Mae'r papur yn cynnwys Dangosyddion Daearyddol, a elwir hefyd yn **enwau bwydydd gwarchoddedig**, yn yr ail gategori (rheolau nad oes angen eu gwirio wrth y ffin). Mae'n dweud y bydd y DU yn sefydlu ei chynllun Dangosyddion Daearyddol

ei hun ar ôl Brexit a fydd yn agored i geisiadau o'r tu mewn a'r tu allan i'r DU. Ar hyn o bryd, mae gan Gymru 15 o gynhyrchion gwarchoddedig fel Dangosyddion Daearyddol ac mae'r papur yn cydnabod arwyddocâd penodol cig oen a chig eidion o Gymru.

Mae'r papur hefyd yn ailadrodd y bydd y DU yn gadael y PAC. Ar 10 Gorffennaf, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynigion ar gyfer **polisi rheoli tir newydd** i ddisodli'r PAC.

Mae elfennau eraill yr ardal masnach rydd newydd ar gyfer nwyddau'n cynnwys:

- Dim tariffau ar nwyddau bwyd-amaeth a dim cwotâu na rheolau o ran gofynion tarddiad ar gyfer nwyddau a fasnechir rhwng y DU a'r UE.
- Trefniad Tollau Hwylusedig (FCA) newydd pan fyddai'r DU yn codi prisiau'r DU ar gyfer nwyddau sy'n dod i mewn i'r DU ar gyfer marchnad y DU a thariffau'r UE ar gyfer nwyddau sy'n dod i mewn i'r DU ond sydd wedi'u pennu ar gyfer marchnad yr UE.
- Trefniadau cydweithredu â'r UE er mwyn goruchwyllo'r farchnad a sicrhau y caiff y rheolau eu dilyn yn y ddwy farchnad. Byddai hyn yn golygu y byddai ar y DU angen mynediad at systemau cyfathrebu presennol yr UE, megis y **System Rhybudd Cyflym ar gyfer Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (RASFF)**.

Mae cynigion eraill yn y papur yn cynnwys:

- Cydnabod ar y ddwy ochr gymwysterau proffesiynol, sy'n golygu y gall gweithwyr proffesiynol ddarparu gwasanaethau yn y DU a'r UE. Gallai hyn fod yn arbennig o arwyddocaol i'r sector milfeddygol gan fod tua chwarter y milfeddygon yng Nghymru yn wladolion o'r UE nad ydynt yn dod o'r DU, gan gynnwys y rhan fwyaf o'r rhai sy'n gyfrifol am fonitro hylendid cig mewn lladd-dai.
- Cyfranogiad y DU yn asiantaethau allweddol yr UE sydd â rhan arwyddocaol wrth osod nwyddau ar y farchnad (fodd bynnag, ni sonnir am **Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA)** yn y papur).
- Cytuno i fabwysiadu'r un system a rheolau ar gymorth gwladwriaethol, a chydweithrediad agos o ran rheoleiddio cystadleuaeth.

- Ymrwymiad i gynnal y lefel isaf o ran safonau amgylcheddol, newid hinsawdd ac amddiffyniadau cymdeithasol ac yn arbennig cymal nad yw'n atchweliad ar safonau amgylcheddol a safonau llafur domestig.
- Gallu'r DU i ddilyn polisi masnach annibynnol y tu allan i'r UE lle gallai osod ei thariffau ei hun ond y byddai'r llyfr rheolau cyffredin yn cyfyngu arni o ran pryd y gallai ganiatáu safonau gwahanol i'r UE o ran cynnyrch.

Mae llawer o'r cynigion yn y papur yn gyson yn fras â chasgliadau ac argymhellion a wnaed mewn dau adroddiad gan Bwyllgorau'r Cynulliad – **adroddiad ar berthynas Cymru â'r UE yn y dyfodol (Mawrth 2018)** gan y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ac **adroddiad ar ddyfodol rheoli tir (Mawrth 2017)** gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig.

Mae'r ddau adroddiad yn trafod pwysigrwydd gweithwyr mudol yr UE i'r sector bwyd-amaeth. Nid yw'r papur yn trafod anghenion llafur y sector bwyd-amaeth. Yn hytrach, mae'n pwysleisio y bydd symudiad rhydd pobl yn cael ei ddisodli â fframwaith newydd ar gyfer symudedd nad yw'n ymddangos ei fod yn cynnig ffordd i weithwyr bwyd-amaeth mudol dros dro na pharhaol o'r UE i ddod i mewn i'r DU fel y gwnânt ar hyn o bryd. Mae'r papur yn nodi y bydd trefniadau mewnfudo'r DU yn y dyfodol yn nodi sut y gall y rhai o'r UE a mannau eraill wneud cais i weithio yn y DU.

## Ymateb y sector bwyd-amaeth

**Dywedodd Ian Wright, Prif Weithredwr y Ffederasiwn Bwyd a Diod**, ei bod yn eithriadol o galonogol bod y Papur Gwyn yn ceisio sicrhau mai dim gwrthdaro wrth fasnachu â'n partner masnachu pwysicaf yw ei brif flaenoriaeth o ran Brexit. Wrth wneud hynny, pwysleisiodd fod gweithgynhyrchwyr bwyd a diod yn dibynnu ar gadwyni cyflenwi integredig, gyda chynhwysion a chynhyrchion gorffenedig yn croesi ffiniau'r DU a'r UE yn aml.

Dywedodd ei bod yn gadarnhaol bod y papur yn dechrau mynd i'r afael â rhai o'r materion mwyaf perthnasol ar gyfer gweithgynhyrchwyr, megis rheolau tarddiad, ond bod llawer mwy o waith i'w wneud, gan bwysleisio'r effaith y gall rheolau tarddiad ei hachosi ar gyfer cadwyni cyflenwi byd-eang.

Dywedodd hefyd fod angen deall mwy am y ffordd y byddai'r llyfr rheolau cyffredin yn gweithio'n ymarferol ac, er ei fod yn croesawu'r ffaith y byddai'r DU yn parhau i geisio dylanwadu ar bwyllgorau technegol yr UE a chael mynediad at RASFF, mae llawer o gwestiynau o hyd am ein perthynas werthfawr ag EFSA.



Roedd **datganiad ar y cyd gan lywyddion pedwar undeb ffermio'r DU**, gan gynnwys NFU Cymru, hefyd yn croesawu'r cynigion ar gyfer dim gwrthdaro wrth fasnachu, gan nodi bod egwyddor ardal masnach rydd ar gyfer nwyddau'n hanfodol i'r sector bwyd-amaeth.

Dywedwyd eu bod yn falch bod Llywodraeth y DU yn bwriadu cynnal safonau cynhyrchu a lles uchel a phwysleisiodd ei bod yn hanfodol nad yw polisi masnach annibynnol y DU yn ceisio tanseilio'r safonau hynny. Galwyd am fwy o eglurder ynghylch y berthynas fasnachu rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol a gobeithio y byddwn yn cynnal y lefelau uchel o fasnach gyda'n marchnad fwyaf ar gyfer cynhyrchion bwyd-amaeth.

Roeddent hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd gweithwyr tymhorol a pharhaol o'r tu allan i'r DU ac yn galw am bolisi mewnfudo newydd ar sail angen busnes sy'n adlewyrchu pwysigrwydd y gweithwyr hyn i'n sector bwyd a ffermio.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Ar 17 Gorffennaf, ymatebodd Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, **i'r Papur Gwyn** mewn datganiad yn y Cynulliad. Nid oedd yn frwd am y cynigion, gan ddweud bod Llywodraeth y DU "wedi cymryd rhai camau sigledig i'r cyfeiriad [cywir]" (h.y. safbwynt Llywodraeth Cymru, sef cyfranogiad llawn yn y Farchnad Sengl ac aelodaeth o Undeb Tollau ond ei fod hefyd yn "gam... sylweddol o bosib". Dywedodd hefyd, "am bob ateb y mae'r Papur Gwyn yn ceisio ei roi, mae cyfres arall o gwestiynau yn codi".

Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet â'r cynigion ar gyfer ardal masnach rydd ar gyfer nwyddau, gan gynnwys nwyddau bwyd-amaeth, ac ar gyfer yr angen i gysoni â rheolau penodol yr UE drwy lyfr rheolau cyffredin. Dywedodd y gallai'r cynigion ar gyfer tiriogaeth tollau cyffredin fod yn gam i'r cyfeiriad cywir, ond gofynnodd sut y byddai'r "cynigion tollau astrus" yn gweithio'n ymarferol. Gofynnodd hefyd sut y byddai'r DU yn darparu gwarantau digonol i'r UE ar safonau amgylcheddol a llafur, er mwyn sicrhau y caiff pawb ei drin yn yr un modd.

Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd fod y papur yn gyfle a gollwyd i roi eglurder ar faterion mudo ac ailadroddodd safbwynt Llywodraeth Cymru, sef system sy'n "gydnaws â'r egwyddor o ryddid pobl i symud, ond lle bo cyswllt amlwg rhwng mudo a chyflogaeth".

Yn olaf, galwodd ar y Prif Weinidog i "ddatgan yn blaen mai bwriad y DU yw aros yn y farchnad sengl ar gyfer nwyddau a chynhyrchion amaethyddol, a pharhau mewn undeb tollau."

## Ymateb yr UE

Ar 20 Gorffennaf, cyhoeddodd Michel Barnier, Prif Negodwr yr UE, **ddatganiad i'r wasg** yn amlinellu ei ymateb i'r Papur Gwyn. **Adroddodd Politico** fod ei sylwadau, fwy neu lai, wedi lladd y cynigion ar gyfer ardal masnach rydd ar gyfer nwyddau a threfniad tollau newydd.

Ailddatganodd Michel Barnier ymrwymiad yr UE i'r Farchnad Sengl ac anwahanoldeb ei phedwar rhyddid, sy'n cynnwys rhyddid gweithwyr i symud.

Cwestiynodd y cynigion ar gyfer llyfr rheolau cyffredin ar gyfer nwyddau, ond dim ond ar gyfer rheolau y mae'n rhaid eu gwirio wrth y ffin. Gofynnodd sut y gellid diogelu defnyddwyr yr UE heb gynnwys safonau bwyd-amaeth eraill, nas rheolir wrth y ffin, megis Organeddau a Addaswyd yn Enetig (GMO) a phlaladdwyr.

Cwestiynodd hefyd y cynigion ar gyfer cymhwyso dau dariff yn yr ardal dollau newydd gan ofyn a oedd hyn yn ymarferol heb gymhlethdod na biwrocratiaeth ychwanegol ac a fyddai mwy o berygl o dwyll.

Fodd bynnag, nid oedd hyn yn golygu gwrthod y cynigion yn llwyr o gwbl. Dywedodd Michel Barnier fod sawl elfen sy'n agor y ffordd ar gyfer trafodaeth adeiladol ar y berthynas yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys cytundeb masnach rydd a ddylai fod wrth wraidd ein cysylltiadau economaidd ac ymrwymladau'r DU mewn perthynas â chwarae teg i bawb, yn enwedig ym maes cymorth gwladwriaethol a safonau amgylcheddol a llafur.

Bydd yr erthygl nesaf yn y gyfres hon yn edrych ar yr hyn y mae'r Papur Gwyn yn ei ddweud ar ddiogelu'r amgylchedd.

**Awdur:** Eifyn Henderson

**Dolen i'r erthygl ar-lein:** **Y Berthynas rhwng y DU a'r UE yn y Dyfodol: Y sector bwyd-amaeth**

## 4. Diogelu'r amgylchedd

Cyhoeddwyd: 27 Gorffennaf

Dyma'r ddiweddaraf mewn cyfres o erthyglau sy'n edrych ar Bapur Gwyn Llywodraeth y DU ar y **Berthynas rhwng y DU a'r UE yn y Dyfodol**, a gyhoeddwyd ar 12 Gorffennaf. I gael trosolwg cyffredinol o'r cynigion, darllenwch ein **blog blaenorol**.

Mae'r erthygl hon yn edrych yn benodol ar elfennau'r Papur Gwyn sydd fwyaf perthnasol i ddiogelu'r amgylchedd.

### 'Dim atchweliad' amgylcheddol

Mae Llywodraeth y DU yn cynnig y byddai'n ymrwmo i 'safonau amgylcheddol rheoleiddiol uchel' drwy ofyniad 'dim atchweliad' mewn cytundeb ar y berthynas â'r UE yn y dyfodol. Mae hyn yn golygu y byddai'r UE a'r DU yn ymrwmo i gynnal y safonau amgylcheddol presennol sy'n atal y naill barti neu'r llall rhag gwanhau'r safonau er mwyn sicrhau mantais economaidd gystadleuol.

Yn flaenorol, mynnodd Michel Barnier, prif negodwr yr UE ar Brexit **gymal dim atchweliad mewn unrhyw fargen yn y dyfodol**. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos y byddai Michael Gove, yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig **yn diystyru gofyniad dim atchweliad** mewn tystiolaeth i Bwyllgor Archwilio Amgylcheddol Tŷ'r Cyffredin ym mis Ebrill 2018:

The non-regression clause is, in essence, a means of the EU giving itself potential control over domestic legislation. I do not think that is necessary. It goes against the spirit of taking back control. It is up to the Government and Parliament to demonstrate in the future, in fact, that it will not be necessary.

Galwodd rhanddeiliaid am egwyddor dim atchweliad statudol ar ôl ymadael â'r UE yn ystod ymchwiliad Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (CCERA) y Cynulliad i **lywodraethu ac egwyddorion amgylcheddol ar ôl Brexit**. Roedd Greener UK, sef clymblaid o sefydliadau amgylcheddol, **yn argymhell yn ddiweddar (PDF 150KB)** y dylai dim atchweliad o ran safonau amgylcheddol fod yn sail i bartneriaeth y DU a'r UE yn y dyfodol.

Er bod rhanddeiliaid wedi croesawu'r ffaith bod yr egwyddor dim atchweliad wedi'i chynnwys yn y Papur Gwyn, cafwyd galwadau (e.e. o du y rhwydwaith

academaidd **Brexit a'r Amgylchedd**) i fynd y tu hwnt i ddim atchweliad drwy gynnwys egwyddor 'dilyniant' a fyddai'n ymrwymo'r UE a'r DU i anelu at safonau amgylcheddol uwch. **Dywedodd** David Henig, arbenigwr masnach o'r Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Economi Gwleidyddol Rhyngwladol, fod y cymal dim atchweliad yn swnio'n rymus ond ei fod yn gymal safonol mewn cytundebau masnach. Mae cymalau o'r fath i'w gweld yng nghytundebau diweddar yr UE â Chanada a'r Wcráin.

Mae **Adroddiad ENDS yn amlygu** nad yw'r Papur Gwyn yn trafod a fyddai Llywodraeth y DU yn parchu targedau'r UE mewn meysydd fel gwastraff, dŵr neu ansawdd aer nad yw'r DU yn eu cyrraedd ar hyn o bryd. Yn ogystal, mae **Greener UK yn codi pryderon** o ran hepgor y **Rhaglen Natura 2000** ar gyfer cadwraeth bywyd gwyllt.

## Safonau amgylcheddol – y 'llyfr rheolau cyffredin'

Mae Llywodraeth y DU yn cynnig partneriaeth economaidd a fyddai'n cynnwys 'llyfr rheolau cyffredin' ar gyfer nwyddau, gan gynnwys bwyd-amaeth. Byddai hwn yn cwmpasu y rheolau hynny sydd eu hangen ar gyfer masnach llyfn ar y ffin yn unig. Mae hyn yn awgrymu y byddai'r DU yn ymrwymo i ddim ond rhai o'r un safonau amgylcheddol â'r UE ar nwyddau.

Mae Llywodraeth y DU yn ymrwymo i ddiweddarau'r llyfr rheolau yn unol â rheoliadau'r UE, ond byddai Senedd y DU a'r deddfwrfeydd datganoledig yn cael dweud eu dweud o ran sut y gellid gweithredu'r rheolau hyn. Gallent ddewis peidio â'u gweithredu, gan dderbyn y byddai canlyniadau o ran mynediad at y farchnad o wneud hynny. Mae rhagor o fanylion am y trefniadau arfaethedig ar gyfer y sector bwyd-amaeth wedi'u **nodi yn y blog** blaenorol yn y gyfres hon.

Roedd **Canllawiau trafod y Cyngor Ewropeaidd** yn pwysleisio pwysigrwydd atal manteision cystadleuol annheg drwy bennu gofynion is o ran rheoliadau amgylcheddol. Cefnogwyd y safbwynt hwn gan **Senedd Ewrop**.

## Cynnal cytundebau amgylcheddol rhyngwladol

Mae'r Papur Gwyn yn cynnwys ymrwymadau i gynnal cytundebau cydweithredu amgylcheddol rhyngwladol. Dywed y dylai hefyd fod ymrwymiad cyfatebol i gydweithredu amgylcheddol parhaus, gan gynnwys y fforymau rhyngwladol, i ddatrys heriau byd-eang cyffredin.

Mae'r Papur Gwyn yn ychwanegu bod y DU yn rhan o 'nifer o gytundebau amgylcheddol aml-ochrol', ac yn dweud bod Llywodraeth y DU 'wedi ymrwymo i

---

gynnal ei chyfrifoldebau rhyngwladol o dan y cytundebau hyn ar ôl iddi ymadael â'r UE'.

## Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd

Nid yw'r cymal dim atchweliad wedi'i gynnwys o ran newid yn yr hinsawdd. Mae'r ddogfen, fodd bynnag, yn ymrwymo i gynnal safonau uchel o ran mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ar ôl Brexit ac mae'n amlygu bod cyfraith y DU yn mynd y tu hwnt i gyfrifoldebau presennol yr UE. Mae'n dweud y canlynol:

The UK recognises the UK's and the EU's shared interest in global action on climate change and the mutual benefits of a broad agreement on climate change cooperation. The UK's world leading climate ambitions are set out in domestic law and are more stretching than those that arise from its current obligations under EU law. The UK will maintain these high standards after withdrawal.

Bydd blog diweddarach yn y gyfres yn crynhoi'r agweddau ar y Papur Gwyn sy'n ymwneud ag ynni.

## Llywodraethu o ran y DU a'r UE, a Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd

Mae'r Papur yn cynnig y dylid sefydlu corff llywodraethu newydd yr Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig i reoli'r berthynas yn y dyfodol. Byddai hwn yn fforwm i weinidogion ac arweinwyr gyfarfod bob dwy flynedd. Mae'r Papur Gwyn yn nodi y byddai Llywodraeth y DU yn cynrychioli'r DU gyfan ar y corff hwn ond yn ystyried barn y llywodraethau datganoledig.

Byddai Cydbwyllgor a fyddai'n cynnwys swyddogion y DU a'r UE yn cwrdd yn amlach ac yn trafod materion manwl ynghylch gweithredu'r berthynas, ac yn ceisio datrys unrhyw anghydfodau ynglŷn â'i gweithredu yn anffurfiol. Pan na ellir datrys anghydfodau mewn Cyd-bwyllgor, mae'r Papur Gwyn yn cynnig system ar gyfer cymrodeddu annibynnol. Bydd blog diweddarach yn y gyfres yn disgrifio'r trefniadau llywodraethu a gynigir yn y Papur Gwyn.

O ran llywodraethu dull dehongli a gweithredu safonau amgylcheddol a gedwir mewn llyfr rheolau cyffredin, pe na allai'r Cydbwyllgor ddatrys yr anghydfod, dywed y Papur Gwyn y gellid cyfeirio at Lys Cyfiawnder yr UE (CJEU) ar y cyd i gael dehongliad. Byddai gan y CJEU rôl o ran dehongli y rheolau'r UE hynny y mae'r DU wedi cytuno i ymlynu wrthynt fel mater o gyfraith rhyngwladol. Byddai'n rhaid i'r

Cydbwyllgor neu banel cymrodeddu ddatrys yr anghydfod mewn ffordd sy'n gyson â'r dehongliad hwn.

Gallai dinasyddion y DU roi cwyn gerbron llys y DU i gael adolygiad barnwrol ar ddefnyddio deddfau'r DU sy'n gweithredu'r llyfr rheolau cyffredin. Byddai'n rhaid i lysoedd y DU roi 'ystyriaeth ddyledus' i gyfraith achosion yr UE mewn meysydd lle mae'r DU yn defnyddio llyfr rheolau cyffredin ar nwyddau.

Mae **Brexit and Environment** yn codi pryderon nad oes digon o fanylion yn y Papur Gwyn ar sut y bydd y berthynas rhwng cenhedloedd y DU yn cael ei rheoli. Mae **Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018** yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU gyhoeddi Bil i sefydlu corff a allai gymryd camau gorfodi amgylcheddol ar lefel ddomestig (gan gynnwys camau cyfreithiol os oes angen). Fodd bynnag, bu **pryder sylweddol (PDF 455KB)** ynghylch **Cynigion Llywodraeth y DU**.

Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig wedi nodi argymhellion ar gyfer corff llywodraethu amgylcheddol yn ei adroddiad ar **drefniadau llywodraethu ac egwyddorion amgylcheddol ar ôl Brexit**. Mae **blog blaenorol** yn darparu rhagor o wybodaeth am y materion llywodraethu amgylcheddol ar gyfer Cymru.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Wrth ymateb i'r Papur Gwyn **roedd Mark Drakeford AC. Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yn cwestiynu** ymarferoldeb y cynigion a'r warant o ran safonau amgylcheddol:

... Ond am bob ateb y mae'r Papur Gwyn yn ceisio ei roi, mae cyfres arall o gwestiynau yn codi [...] sut y bydd Llywodraeth y DU yn rhoi digon o sicrwydd i 27 o wledydd yr UE ynglŷn â materion amgylcheddol a safonau'r farchnad lafur, i sicrhau cydraddoldeb gwirioneddol?

## Ymateb y Comisiwn Ewropeaidd:

**Wrth ymateb i'r Papur Gwyn, dywedodd Michel Barnier** bod sawl elfen yn agor y ffordd ar gyfer cynnal trafodaeth adeiladol, gan gynnwys ymrwymïadau'n ymwneud â safonau amgylcheddol. Fodd bynnag, mae'n codi'r mater y byddai llawer o safonau'r UE o ran nwyddau na chânt eu gwirio ar y ffin, gan gynnwys safonau ar gyfer GMOau a phlâladdwyr. Felly, mae'n codi cwestiynau ynghylch diogelu defnyddwyr Ewropeaidd, a'r sail y gallai'r UE ei defnyddio i dderbyn symudiad nwyddau yn rhwydd.

Bydd y blog nesaf yn y gyfres yn edrych ar yr hyn y gallai goblygiadau'r cynigion yn y Papur Gwyn fod i economi Cymru.

Awdur: Katy Orford

Dolen i'r erthygl ar-lein: **Y Berthynas rhwng y DU a'r UE yn y Dyfodol: Diogelu'r Amgylchedd**

## 5. Yr effaith ar yr economi

Cyhoeddwyd: 31 Gorffennaf

Ym Mhapur Gwyn Llywodraeth y DU mae'r amlinelliad manylaf eto o'r weledigaeth ar gyfer perthynas economaidd y DU â'r UE ar ôl Brexit. Sut fyddai'r berthynas newydd hon yn effeithio ar economi Cymru? Dyma un o gyfres o flogiau sy'n edrych ar sefyllfa Cymru ym mherthynas Llywodraeth y DU â'r UE yn y dyfodol, ac mae'n dilyn erthygl sy'n trafod diogelwch amgylcheddol.

### Pa rannau o economi Cymru y bydd Brexit yn effeithio arnynt?

Mae Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd wedi ysgrifennu adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru sy'n ystyried pa rannau pwysig o economi Cymru y mae Brexit yn debygol o effeithio arnynt (**Rhagolygon Economaidd ar gyfer Cwmnïau Mawr a Chanolig yng Nghymru**). Cynhaliwyd yr ymchwil i raddau helaeth drwy lens Cwmnïau Angori a Chwmnïau Pwysig Rhanbarthol (mae "Cwmnïau Angori" yn gwmnïau rhyngwladol sydd â phresenoldeb sylweddol yng Nghymru), ac nid yw'n ystyried amaethyddiaeth na physgodfeydd.



Roedd adroddiad Prifysgol Caerdydd yn cynnwys y tabl a ganlyn, sy'n crynhoi'r risgiau sy'n gysylltiedig â gadael yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer y gwahanol sectorau yn economi Cymru:

Crynodeb o sut y cafodd gwahanol sectorau eu graddio o ran gwahanol agweddau ar risg

	Effects of tariffs on sector output (trade directly and indirectly)	Effects of tariffs on inputs	Effects of non-tariff barriers on trade and activity	Labour market risks	Effects in regional economy of changes in ability of firms	Effects linked to loss of access to EU knowledge and innovation networks and frameworks	Control, legal and structure of assets in EU, accessibility to corporate investment capital	Positioning in corporate networks, competitiveness and likely options to replace EU's activity
Services: utilities and services	Medium/High	Medium	High	Medium	High	High	Medium/High	Medium
Aerospace, transportation and related	High	High	Medium	Low	High	Medium	High	Medium/High
Health, hotels	Low	Low	Low	Low	Low/High	Low	Low	Low/High
Construction and civil engineering	Low	Low	Low	Low/High	Medium/High	Low	Low	Low
Electrical components, semiconductor	High	High	Medium	Low	Medium/High	Medium	Medium/High	Medium/High
Energy & utilities	Low	Low	Low	Low	High	Low	Low	Low
Financial services	Low	Low	Low	Low	High	Low	Low	Low/High
Food and drink	Medium	Medium	Low	Medium	High	Low	Low	Low
Information and communications technology	Medium	Low	Low/High	Medium	Low/High	High	Low/High	Low/High
Insurance	Low	Low	Low	Low	Medium/High	Low	Low	Low/High
Medical health products and services	Low/High	Medium/High	Medium	Low	Medium	High	Low/High	Medium
Oil and gas, manufacturing and engineering	Medium/High	Medium	Medium	Low	Low/High	Low/High	High	Medium/High
Flight, retail, retail products	Low	Low	Low	Low	Medium	Low	Medium	Low/High
Process and chemicals	High	Low	Medium	Low	Medium/High	Low	Medium/High	Low/High
Steel	High	Low	Medium	Low	High	Low	Medium/High	Medium
TV production and cables	Low	Low	Low	Low/High	Medium	Low	Low	Low

*Ffynhonnell: Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd, **Cyfnod Pontio'r UE a Rhagolygon Economaidd ar gyfer Cwmnïau Mawr a Chanolig yng Nghymru.***

Ar 21 Mehefin 2018, cyhoeddodd cwmni awyrofod Airbus **asesiad risg**, gan dynnu sylw at ei bryderon ynglŷn â Brexit, yn enwedig pe bai'r DU yn gadael yr UE heb fargen. Craidd y pryderon yw'r posibiliad y bydd newidiadau i reolau'r Undeb Tollau a'r Farchnad Sengl, sydd ar hyn o bryd yn galluogi cadwyni cyflenwi integredig i weithredu ledled Ewrop, a chyfyngiadau posibl ar ryddid staff Airbus i symud. Roedd y pryderon hyn yn destun **blog** blaenorol.

**Masnach esmwyth mewn nwyddau: cynnal y status quo**

Mae Llywodraeth y DU wedi cynnig sefydlu "ardal fasnach rydd ar gyfer nwyddau". Mae o'r farn y byddai hyn yn "gwarchod y cadwyni cyflenwi sydd wedi'u hintegreiddio mewn ffordd mor unigryw a phrosesau 'mewn union bryd' sydd wedi datblygu ledled y DU a'r UE dros y 40 mlynedd diwethaf". Byddai hyn yn cael ei ategu gan:

- "Llyfr rheolau cyffredin" ar gyfer nwyddau, gan gynnwys bwyd-amaeth, sy'n trafod y rheolau hynny sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau masnach esmwyth rhwng y DU a'r UE.

- Cyfranogiad y DU yn asiantaethau'r UE sy'n awdurdodi nwyddau mewn sectorau sy'n cael eu rheoli'n llym, sef yr Asiantaeth Gemegion Ewropeaidd, yr Asiantaeth Diogelwch Awyrennau Ewropeaidd a'r Asiantaeth Feddyginiaethau Ewropeaidd.
- Dim tariffau ar unrhyw nwyddau.

Mae cyfran uwch o allforion Cymru yn mynd i'r UE nag o unrhyw wlad neu ranbarth arall yn y DU:

### Allforion nwyddau'r DU yn ôl gwlad a rhanbarth

UK goods exports by country and region			
£ billion, 2017			
	EU	Total	% EU
North East	7.6	12.9	59%
North West	14.2	28.8	49%
Yorkshire and The Humber	9.6	16.8	57%
East Midlands	12.0	21.8	55%
West Midlands	14.8	33.6	44%
East	15.2	28.9	53%
London	15.1	36.2	42%
South East	22.3	45.2	49%
South West	9.4	20.7	46%
England	120.3	244.8	49%
Wales	9.9	16.4	60%
Scotland	14.1	28.8	49%
Northern Ireland	4.8	8.6	56%
Unallocated - Known	14.3	20.7	69%
Unallocated - Unknown	0.0	10.4	0%
UK	163.5	329.8	50%

Source: HMRC, UK Trade Info

Ffynhonnell: Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, **Statistics on UK-EU trade**

Yn 2017 aeth 60 y cant o allforion nwyddau adnabyddadwy Cymru i'r UE, o gymharu â 50 y cant ar draws y DU gyfan.

Mae Brexit yn fygythiad i ddiwydiannau gwerth uchel sydd â phresenoldeb mawr yng Nghymru – megis awyrofod a modurrol – oherwydd eu bod wedi'u

rheoleiddio'n llym ac yn cynnwys cadwyni cyflenwi cymhleth a thrawsffiniol. Mae cynigion y Papur Gwyn, i bob golwg, yn lliniaru'r bygythiadau hyn, oherwydd maent wedi'u cynllunio i gynnal y status quo ar gyfer y fasnach nwyddau: dim tariffau, a chysondeb rheoleiddiol parhaus rhwng y DU a'r UE yn y maes hwn.

Roedd Airbus wedi mynegi pryderon ynghylch creu rhwystrau rhwng y DU a'r UE pe bai'r DU yn gadael Undeb Tollau yr Undeb Ewropeaidd. Er bod y DU yn bwriadu gadael yr Undeb Tollau, mae'r Papur Gwyn yn cynnig "Trefniant Tollau wedi'i Hwyluso", a fyddai'n dileu'r prosesau tollau rhwng y DU a'r UE. Mae hwn yn **gynnig cymhleth**. Mae'r Papur Gwyn yn cydnabod y byddai angen trafod sawl maes allweddol gyda'r UE er mwyn iddo fod yn hyderus na all nwyddau fynd i mewn i farchnad yr UE heb dalu'r tariff cywir.

## Trefniadau newydd ar gyfer gwasanaethau

Mae cynigion y DU ar gyfer y fasnach mewn gwasanaethau yn dangos mwy o wyriad o'r status quo na'r rhai ar gyfer y fasnach mewn nwyddau. Yn ôl y Papur Gwyn:


Mae'r DU yn cynnig trefniadau newydd ar gyfer gwasanaethau a digidol a fyddai'n rhoi rhyddid rheoleiddiol, lle mae hynny bwysicaf ar gyfer economi seiliedig ar wasanaethau'r DU. Golyga hyn na fydd gan y DU a'r UE y lefelau mynediad presennol i farchnadoedd ei gilydd.

Ymhlith cynigion y DU mae "trefniadau rheoleiddio ac economaidd newydd ar gyfer gwasanaethau ariannol", a bod y naill ochr a'r llall yn cydnabod cymwysterau proffesiynol.

Gall banciau a chwmnïau gwasanaethau ariannol sydd wedi'u hawdurdodi mewn unrhyw wladwriaeth yr UE neu'r Ardal Economaidd Ewropeaidd fasnachu'n rhydd mewn unrhyw wladwriaeth arall gydag ychydig iawn o awdurdodiad ychwanegol, drwy'r hyn a elwir yn "hawliau pasbortio". Mae'r Papur Gwyn yn cydnabod, ar ôl Brexit, na all y DU barhau i weithredu o dan gyfundrefn "basbortio" yr UE, gan fod hyn yn rhan annatod o'r Farchnad Sengl na fydd yn aelod ohoni mwyach.

Mae'r nwyddau y mae Cymru yn eu hallforio i'r UE yn werth llawer mwy na'r gwasanaethau y mae'n eu hallforio:

## Allforion nwyddau a gwasanaethau Cymru, 2015, £miliwn

**Figure B4:  
Wales goods  
and services  
exports,  
2015, £m**

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, **Y Polisi Masnach: Materion Cymru**

Er bod y rhan fwyaf o'r nwyddau y mae Cymru yn eu hallforio yn mynd i'r UE (60 y cant yn 2015), mae tua dwy ran o dair o'r gwasanaethau y mae Cymru yn eu hallforio yn mynd i wledydd nad ydynt yn rhan o'r UE.

Mae sector gwasanaethau ariannol y DU yn rhan fawr o'r allforion ac yn creu gwared masnach mawr ar gyfer y DU. Mae gwasanaethau ariannol **yn cyflogi dros filiwn o bobl, ac roedd yn cyfrif am 6.5 y cant o'r gwerth a grëwyd yn economi'r DU yn 2017**. Credir bod llai o ffocws allanol gan wasanaethau ariannol Cymru nag yn y DU gyfan. Fel y dywedodd yr economegydd, yr Athro Gerald Holtham, wrth **Bwyllgor Materion Allanol** y Cynulliad:

If the financial services sector in London catches a cold, I don't think we'll be very badly affected here. Most of our back offices are serving insurance companies with a domestic market, on the whole.

Os bydd y fasnach gwasanaethau ariannol rhwng y DU a'r UE yn cael ei niweidio yn sgil colli'r hawliau pasbort, gellid disgwyl y byddai hynny'n cael effaith ar Gymru, yn bennaf oherwydd gostyngiad yn yr incwm trethi yn Nhrysorlys y DU, yn hytrach nag yn uniongyrchol yn economi Cymru.

## Beth yw barn yr UE?

Mae'r UE wedi datgan dro ar ôl tro na all y berthynas newydd rhwng y DU a'r UE danseilio uniondeb y Farchnad Sengl. Er bod **canllawiau negodi diweddaraf y Cyngor Ewropeaidd** o blaid cytundeb masnach rydd cytbwys, uchelgeisiol ac eang ei gwmpas, mae'n rhybuddio na all hyn olygu cymryd rhan yn y Farchnad Sengl na rhannau ohoni. Rhaid aros i weld a fydd yr UE yn caniatáu i'r DU gynnal "masnach esmwyth" ac ar yr un pryd ymwrthod â'r rhyddid i symud, aelodaeth o'r Undeb Tollau a chynnig rheolau newydd ar gyfer gwasanaethau. **Dywedodd** negodwr y Comisiwn Ewropeaidd, Michel Barnier, ar ôl ei gyfarfod cyntaf gyda'r Ysgrifennydd Gwladol newydd ar gyfer Ymadael â'r UE ym mis Gorffennaf 2018:

Our challenge will be to find common ground between the fundamental principles that define the EU and the UK positions

Awdur: Robin Wilkinson

Dolen i'r erthygl ar-lein: **Y berthynas rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol: pa effaith a gaiff hyn ar economi Cymru?**

## 6. Addysg bellach ac addysg uwch

Cyhoeddwyd: 6 Awst

### Cyflwyniad

Ym mis Mehefin, ysgrifennwyd am **yr heriau a'r cyfleoedd yn sgil Brexit** i'r sector addysg bellach ac addysg uwch yng Nghymru. Roedd yn rhan o **ymchwiliad parhaus y Cynulliad Cenedlaethol** a fydd yn clywed tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams, yn yr hydref.

Yma, rydym yn rhoi diweddariad ar yr erthygl flaenorol fel rhan o gyfres ehangach ar Bapur Gwyn Llywodraeth y DU ar **y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol**. I gael trosolwg cyffredinol o'r cynigion, darllenwch yr **erthygl blog yma**.

### Diwedd ar ryddid i symud

Ar hyn o bryd, er, ar y cyfan, fod yn rhaid i fyfyrwyr rhyngwladol nad ydynt yn dod o'r UE sy'n dod i astudio a gweithio yn y DU gael fisa a gafwyd o dan y **rheolau mewnfudo ar sail pwyntiau**, gall myfyrwyr a staff yr UE astudio yn y DU o dan y **rheolau rhyddid i symud** presennol [PDF: 1,377 KB]. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y gallant, yn y rhan fwyaf o achosion, astudio neu weithio yma fel pe baent yn fyfyrwr neu'n weithiwr o'r DU.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU wedi datgan yn ei Phapur Gwyn:

'free movement of people will end as the UK leaves the EU'.

### Os nad oes rhyddid i symud, beth arall sydd ar gyfer staff a myfyrwyr?

Mae'n ymddangos nad bwriad y cynnig ar gyfer Cynllun Symudedd Ieuenctid yn y Papur Gwyn yw gweithredu fel system ar gyfer mewnfudo myfyrwyr yn gyffredinol.

Mae'r Papur Gwyn yn defnyddio'r term 'Fframwaith ar gyfer Symudedd' lle mae'n amlinellu cynlluniau ar gyfer symud 'dros dro' i fyfyrwyr, gweithwyr a thwristiaeth sy'n 'ymweld'.

Drwy gydol yr adran hon o'r Papur Gwyn, nid oes datganiad pendant ynghylch myfyrwyr yn gallu cwblhau rhaglenni astudio llawn o dan y Fframwaith ar gyfer Symudedd – mae'n nodi yn hytrach y dylai myfyrwyr barhau i gael y cyfle i gael budd o brifysgolion blaenllaw ei gilydd.

Wrth gyfeirio at symudiad gwyddonwyr ac ymchwilwyr mae'n sôn unwaith eto am 'symud dros dro'.

Y tu hwnt i'r Fframwaith ar gyfer Symudedd, mae'r Papur Gwyn yn dawl ar y cyfan am ddyfodol system mewnfudo'r DU ac felly yn dawl i raddau helaeth ar ddyfodol mewnfudo myfyrwyr a staff yr UE. Mae'r papur yn nodi y bydd rhagor o fanylion am system fewnfudo'r DU yn cael eu nodi maes o law ac y disgwylir i Fil Mewnfudo gael ei gyflwyno i'r Senedd.

Fodd bynnag, nodir yn glir yn y papur y bydd system mewnfudo'r DU yn y dyfodol yn parchu amcan y Llywodraeth i reoli a lleihau mewnfudo net.

Ynghyd â chynlluniau'r DU **i ddinasyddion yr UE i wneud ceisiadau am statws cyn setlo ac ar ôl setlo**, mae'n debygol y bydd unrhyw drefniant mewnfudo staff a myfyrwyr yr UE yn y dyfodol yn cael ei reoli'n fwy.

## Sut beth fydd y Cynllun Symudedd Ieuenctid?

Mae'r Papur Gwyn, serch hynny, yn rhoi synnwyr o'r syniadau y tu ôl i'r Cynllun Symudedd Ieuenctid arfaethedig.

Mae'n dweud y gallai'r cynllun gael ei foddelu ar gynlluniau symudedd ieuenctid eraill y DU â phartneriaid eraill o amgylch y byd, fel Awstralia a Chanada.

Yma, mae'n debygol o gyfeirio at yr hyn a elwir yn **Haen 5 (Cynllun Symudedd Ieuenctid)** lle mae Awstralia a Chanada yn cymryd rhan. System sy'n seiliedig ar bwyntiau yw'r cynllun, sydd ond ar agor i wledydd sy'n cymryd rhan, ac mae terfyn ar y cyfanswm o leoedd a ganiateir (sef 34,000 ar gyfer Awstralia a 6,000 ar gyfer Canada yn 2018).

Rhaid i ymgeiswyr ddangos tystiolaeth o lefel benodol o gyllid, fod rhwng 18 a 31 oed ac, yn arwyddocaol, gallant ond aros yn y DU am 2 flynedd. Byddai symudiad o dan y cynllun hwn yn atal person ifanc rhag dilyn gradd israddedig 3 blynedd llawn. Ar lefel ôl-radd, efallai na fyddant yn gallu astudio cyrsiau technegol penodol **heb gymeradwyaeth y Swyddfa Dramor**.

Mae'r Cynllun Symudedd Ieuenctid hwn yn fwy rhagnodol ac o natur wahanol i'r rheolau rhyddid i symud presennol.

## Cydweithredu: mwy na dim ond rhaglenni

Mae'r Papur Gwyn yn cynnwys cynigion am nifer o gytundebau cydweithredol. Mae'r ddau sy'n berthnasol i addysg uwch ac addysg bellach yn gytundebau ar gyfer gwyddoniaeth ac arloesedd, ac addysg a diwylliant.

### Beth mae'r DU wedi'i gynnig?

Mae'r DU yn cynnig perthynas ddyfnach mewn rhai agweddau o gydweithredu yr UE:

'through new cooperative accords that provide for a more strategic approach than simply agreeing the UK's participation in [EU programmes]'

Mae'r Papur Gwyn yn nodi y byddai angen strwythurau llywodraethu ar gytundebau o'r fath, yn ogystal â chyfraniadau ariannol priodol gan y DU er mwyn caniatáu i'r ddwy wlad siapio'r gweithgareddau dan sylw.

Felly, mae'r Papur Gwyn yn cynnig dull nid yn unig i gymryd rhan, ond hefyd i barhau â gweithgareddau dylanwadu y DU yn ymwneud â gwyddoniaeth, arloesedd ac addysg.

Mae'r cytundeb arfaethedig ar gyfer gwyddoniaeth ac arloesedd yn eang iawn gan gwmpasu cymryd rhan mewn rhaglenni fel Horizon Europe ond hefyd agweddau meddalach sydd wedi'u nodi yn flaenoriaethau gan brifysgol a cholegau Cymru, fel rhwydweithiau ymchwil a chyfryngau ar gyfer deialog.

Yn yr un modd, mae'r adran cytundeb diwylliant ac addysg yn mynd i'r afael â gofynion sector allweddol gyda'r potensial i barhau i gymryd rhan yn y cynllun Erasmus+ newydd fel y mae prifysgolion o Gymru wedi bod yn galw amdano,

**[Prifysgolion Cymru](#)** [PDF: 132KB) a **[Colegau Cymru](#)** [PDF: 72KB].



## A beth yw barn yr UE ar hyn i gyd?

Mae Cyngor yr UE wedi cyhoeddi **canllawiau trafod** [PDF: 217KB], tra bod Senedd Ewrop wedi rhyddhau **datrysiad ar berthynas yr UE a'r DU yn y dyfodol** [PDF: 292KB].

Ymddengys nad oes unrhyw beth yn y canllawiau trafodaeth neu ddatrysiad seneddol a fyddai'n diystyru mabwysiadu'r cynigion unigol hyn, mewn egwyddor.

Wedi dweud hynny, oherwydd natur y trafodaethau, a barn yr UE ar natur annatod y pedwar rhyddid (symud nwyddau, gwasanaethau, cyfalaf a phobl), mae'n bwysig ystyried y cynigion hyn fel rhannau o un cyfan, a bydd y penderfyniad i'w derbyn neu beidio yn dibynnu ar gynnydd a chytundeb mewn meysydd eraill yn ogystal â'u rhinweddau annibynnol eu hunain.

O ran y ddarpariaeth ar gyfer symud pobl, mae Cyngor yr UE yn nodi y dylai unrhyw gytundeb fod yn uchelgeisiol ac yn seiliedig ar ddwyochredd nad yw'n gwahaniaethu ymysg aelod-wladwriaethau. Y tu hwnt i hyn, nid yw'n galw am ryddid i symud parhaus ar gyfer myfyrwyr na staff.

Ar yr un pryd, mae Senedd Ewrop yn ei ddatrysiad yn ategu gwerth cydweithredu diwylliannol ac addysgol, gan gynnwys dysgu a symudedd ieuenctid ac y byddai'n croesawu cydweithredu ym maes ymchwil ac arloesedd.

Fodd bynnag, mae'r datrysiad yn mynd yn ei flaen i nodi y byddai'r DU yn cymryd rhan yn rhaglenni'r UE fel trydedd wlad. Byddai hyn yn golygu na fydd gan y DU rôl gwneud penderfyniadau yn y rhaglenni hyn.

Yn arwyddocaol, mae Senedd Ewrop hefyd wedi nodi na ddylai cyfranogiad y DU yn y dyfodol olygu y bydd y DU yn cael mwy o arian yn ôl nag y mae'n talu i mewn i raglen. Gyda **Phrifysgol Caerdydd** [PDF: 170KB] yn honni bod y DU yn fuddiolwr net o gyllid ymchwil Ewropeaidd, gallai fod goblygiadau ariannu o hyd i brifysgolion Cymru y byddai angen iddynt ymateb iddynt.

## Casgliad

Mae cynigion Chequers yn cynnwys dau fater o ddiddordeb arwyddocaol ac uniongyrchol i addysg bellach ac addysg uwch, y fframwaith symudedd a'r cytundebau cydweithredol. Fodd bynnag, mae'n dawel o ran y cwestiwn arwyddocaol ynghylch y system mewnfudo yn y dyfodol sydd, oherwydd y bwriad i reoli mewnfudo net, yn ymddangos yn annhebygol o fynd i'r afael â phryderon prifysgolion na galwadau Llywodraeth Cymru am ddim cyfyngiadau mewnfudo ychwanegol i fyfyrwyr.

Er bod yr UE yn croesawu cydweithrediad parhaus gyda'r DU ar wyddoniaeth, arloesedd ac addysg, mae'n ymddangos mai sefyllfa bresennol yr UE yw peidio â chynnig unrhyw bosibilrwydd i barhau i wneud penderfyniadau yn y DU yn rhaglenni'r UE. Os na fyddai'r sefyllfa hon yn newid, gallai bennu terfyn ar lefel dylanwad y DU o fewn unrhyw gytundeb cydweithredol sydd â'r rhaglenni hyn.

Awdur: Phil Boshier

Dolen i'r erthygl ar-lein: **Perthynas rhwng y DU a'r UE yn y Dyfodol: beth yw'r diweddaraf ar gyfer addysg bellach ac addysg uwch yng Nghymru?**

## 7. Iechyd

Cyhoeddwyd: 7 Awst

Dyma'r erthygl ddiweddaraf mewn cyfres o erthyglau sy'n edrych ar Bapur Gwyn Llywodraeth y DU ar y **[berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol](#)** (PDF, 748 KB). I gael trosolwg cyffredinol o'r cynigion, darllenwch **[ein blog blaenorol](#)**.

Mae'r erthygl hon yn edrych yn benodol ar elfennau'r Papur Gwyn sydd fwyaf perthnasol i faes iechyd.

### Gweithlu

Mae papur polisi Llywodraeth Cymru, **[Brexit a Thegwch o ran Symudiad Pobl](#)**, yn nodi bod y GIG yng Nghymru yn ddibynnol ar weithwyr o'r UE ar bob lefel. Mae **[Fforwm Polisi Cydffederasiwn GIG Cymru](#)** (PDF, 625.7KB) yn datgan bod 1,462 o unigolion a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG yng Nghymru (sef 1.6 y cant o'r gweithlu cyfan) wedi nodi ym mis Ebrill 2018 eu bod yn wladolion yr UE.

This might not seem much but it includes a significant number of trained, qualified and dedicated staff who could not be replaced in the short term – for example, 6.2% of medical and dental professionals working in the Welsh NHS identify as EU nationals.

Mae'r sefyllfa o ran y gweithlu gofal cymdeithasol yn peri pryder difrifol, ac mae Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid yn y sector iechyd a'r sector gofal wedi tynnu sylw at y sefyllfa hon. Er bod diffyg data cadarn ynghylch cyfansoddiad y gweithlu hwn, gwyddom fod nifer y gwladolion yn yr UE sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol yn llawer uwch na'r nifer sy'n gweithio yn y GIG.

Mae Cydffederasiwn GIG Cymru wedi dweud mai'r flaenoriaeth, yn dilyn Brexit, ddylai fod sicrhau y gall y DU barhau i recriwtio a chadw'r staff iechyd a gofal cymdeithasol y bydd eu hangen arni yn ddirfawr o'r UE a thu hwnt, ynghyd â chynyddu'r cyflenwad o weithwyr domestig hefyd drwy gynllunio gweithlu cadarn. Rhaid i unrhyw reolau ar fewnfudo yn y DU yn y dyfodol gydnabod statws y sector iechyd a gofal cymdeithasol fel sector blaenoriaeth mewn perthynas â recriwtio o dramor.

## Beth y mae'r Papur Gwyn yn ei ddweud?

---

Fel y nodir yn y Papur Gwyn, bydd y drefn symudiad rhydd yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2020. Bydd fframwaith symudedd newydd yn dod i rym ar 1 Ionawr 2021, a bydd y fframwaith hwnnw'n nodi sut y gall unigolion o'r UE a mannau eraill wneud cais i weithio yn y DU.

- Bydd y DU yn ceisio sicrhau trefniadau symudedd cyfatebol gyda'r UE, gan gynnwys hwyluso symudedd ymhlith myfyrwyr a phobl ifanc, a hynny er mwyn sicrhau y gallant barhau i elwa ar y profiad o ymgysylltu â phrifysgolion sy'n arwain y byd a'r profiadau diwylliannol sydd gan y DU a'r UE i'w cynnig.
- Mae'n cynnig system o gyd-gydnabod cymwysterau proffesiynol.
- Bydd hawliau presennol gweithwyr o dan gyfraith yr UE yn parhau i fodoli yng nghyfraith y DU ar y dyddiad ymadael.

## Gofal iechyd cyfatebol

Mae **Cynghrair Iechyd Brexit** (sy'n dwyn ynghyd y GIG, sefydliadau ymchwil feddygol, diwydiant, cleifion a sefydliadau iechyd y cyhoedd) wedi galw am fynediad syml a phriodol at ofal iechyd cyfatebol ar gyfer cleifion y DU a'r UE, yn ddelfrydol drwy ddiogelu'r trefniadau sy'n bodoli ar hyn o bryd.

Ar hyn o bryd, gall trigolion gwledydd yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir gael triniaeth feddygol angenrheidiol yn ystod arhosiad dros dro mewn un o wledydd eraill yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir drwy ddefnyddio'r Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd. Yn ogystal, mae yna drefniadau sy'n caniatáu i drigolion yr Ardal Economaidd Ewropeaidd deithio i wlad arall yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd er mwyn cael gofal iechyd a gynlluniwyd (llwybr Cyfarwyddeb yr UE a'r cynllun S2), ac sy'n caniatáu i bensiynwyr sy'n ymgartrefu mewn gwlad arall yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir gael mynediad at wasanaethau gofal iechyd yn y wlad honno ar yr un telerau â thrigolion cyffredin (cynllun S1). Mae rhagor o wybodaeth am y trefniadau cyfredol i'w gweld yn y blog a gyhoeddwyd gennym ym mis Mawrth 2017, sef **Gofal iechyd trawsffiniol - cleifion o dramor**.

## Beth y mae'r Papur Gwyn yn ei ddweud?

---

Mae Llywodraeth y DU am i wladolion y DU a'r UE barhau i allu defnyddio'r Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd i gael mynediad at ofal iechyd os bydd yr angen

hwnnw'n codi wrth iddynt ymweld â gwlad arall yn yr UE. Yn ogystal â pharhau i gymryd rhan yn y cynllun EHIC, mae'r Papur Gwyn hefyd yn arddel sicrhau trefniadau gofal iechyd cyfatebol ar gyfer pensïynwyr y wladwriaeth sy'n ymddeol i'r UE neu'r DU, a chydweithredu mewn perthynas ag unrhyw driniaeth feddygol arfaethedig. Yn ôl y Papur Gwyn, byddai hyn yn cael ei gefnogi gan unrhyw ofynion angenrheidiol o ran cydweithredu gweinyddol a rhannu data.

## Diogelwch iechyd/iechyd y cyhoedd

Mae'r adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018 gan Bwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Cynulliad, sef **Perthynas Cymru ag Ewrop yn y dyfodol** (PDF, 9MB), yn nodi'r ffaith y byddai aelodaeth barhaus y Deyrnas Unedig o asiantaethau sy'n ymwneud â maes atal afiechydon ac iechyd y cyhoedd yn Ewrop, a/neu ei chyfranogiad ynddynt, yn ddiawys yn fuddiol i'r holl bartïon dan sylw. Mae Fforwm Polisi Cydffederasiwn GIG Cymru hefyd wedi pwysleisio'r ffaith y bydd gwaith cydlynu cryf rhwng y DU a'r UE yn hanfodol o ran diogelu iechyd y cyhoedd:

To ensure that public health for all EU and UK citizens is maintained post-Brexit, it is key that there is strong co-ordination between the EU and UK to deal with pandemics, communicable diseases, influenza outbreaks, infectious diseases and antimicrobial resistance. We must also seek the highest possible level of co-ordination on health promotion and disease prevention programmes.

### Beth y mae'r Papur Gwyn yn ei ddweud?

Mae'r Papur Gwyn yn cynnig cydweithredu parhaus ac agos gydag asiantaethau'r UE at ddibenion mynd i'r afael â bygythiadau iechyd y cyhoedd, gan gynnwys cydweithredu â'r cyrff a ganlyn:

- y Pwyllgor Diogelwch Iechyd a Chyrff fel y Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Atal a Rheoli Clefydau, gan gynnwys mynediad at yr holl systemau rhybuddio cysylltiedig, cronfeydd data a rhwydweithiau, a hynny er mwyn caniatáu i'r DU ac Aelod-wladwriaethau'r UE gydlynu eu hymatebion cenedlaethol;
- Canolfan Monitro Cyffuriau a Chaethiwed i Gyffuriau Ewrop (EMCDDA), a hynny er mwyn mynd i'r afael â'r niwed sy'n cael ei achosi gan gyffuriau anghyfreithlon;

- rhwydweithiau goruchwylio labordy Ewrop, a hynny er mwyn monitro lledaeniad clefydau ar draws Ewrop;
- yr UE a'r gweinyddiaethau datganoledig yn y meysydd hyn, gan gynnwys rhannu gwybodaeth yn uniongyrchol â'r Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Atal a Rheoli Clefydau, a chaniatáu i'r Labordai Cyfeirio Microbioleg yng Nglasgow, ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, i ddarparu hyfforddiant Ewropeaidd ym maes microbioleg iechyd cyhoeddus (EUPHEM).

### Materion eraill:

Mae'r Papur Gwyn hefyd yn cynnwys cynigion sy'n ymwneud â'r materion a ganlyn:

- Cyfranogiad y DU yn Asiantaeth Meddyginiaethau Ewrop. Mae'r Asiantaeth yn gyfrifol am wneud gwaith gwerthuso gwyddonol, goruchwylio a monitro diogelwch mewn perthynas â meddyginiaethau yn yr UE.
- Cynnal cadwyni cyflenwi integredig, a hynny er mwyn osgoi oedi o ran y drefn dollau a rheoleiddio ar ffiniau (mae hyn yn berthnasol i'r cyflenwad o feddyginiaethau a chynhyrchion gofal iechyd eraill).
- Cyfranogiad parhaus yn y Rhwydweithiau Cyfeirio Ewropeaidd (mae'r rhain yn cefnogi'r broses o rannu gwybodaeth a chydweithio mewn perthynas â chlefydau cymhleth neu brin), a Horizon Europe (rhaglen yr UE ar gyfer cyllido ymchwil ar ôl 2020).

## Ymateb rhanddeiliaid

Yn gyffredinol, mae rhanddeiliaid yn gefnogol o'r cynigion yn y Papur Gwyn sy'n ymwneud ag amddiffyn iechyd a gwasanaethau iechyd. Er ei bod yn croesawu uchelgais Llywodraeth y DU, mae **Cynghrair Iechyd Brexit** yn rhybuddio:

We should be under no illusions of the consequences for patients if we fail to plan properly and do not reach a good agreement. That could result in a significant threat to the health of both UK and EU citizens.

Planning is underway at the centre of government, but it will be important for the sake of patients that NHS hospitals, clinics and community services are all prepared for every possible scenario.

Awdur: Philippa Watkins

Dolen i'r erthygl ar-lein: **Y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol: Iechyd**

## 8. Cyfranogiad parhaus yn asiantaethau'r UE

Cyhoeddwyd: 8 Awst

Dyma'r diweddaraf mewn cyfres o erthyglau sy'n edrych ar Bapur Gwyn Llywodraeth y DU ar y **berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol**. I gael trosolwg cyffredinol o'r cynigion, gweler ein **herthygl blog blaenorol**.

Mae'r Papur Gwyn yn nodi yr hoffai Llywodraeth y DU, er mwyn cyflawni ei chynigion ar gyfer y berthynas yn y dyfodol, weld cyfranogiad parhaus yn nifer o asiantaethau'r UE ar ôl Brexit. Yn ôl Llywodraeth y DU byddai hyn, ymhlith pethau eraill, yn galluogi cydnabyddiaeth gilyddol o safonau, rhannu arbenigedd a phersonél hanfodol, a chyfnewid data a gwybodaeth.

Trafodir yr asiantaethau hynny y mae Llywodraeth y DU yn ceisio cydweithrediad â hwy yn y dyfodol, y rhesymau dros wneud hynny a'u perthnasedd i Gymru, mewn mwy o fanylder isod.

### Y bartneriaeth economaidd

Fel yr amlinellwyd yn yr erthygl gyntaf, mae Llywodraeth y DU yn ceisio partneriaeth economaidd newydd rhwng y DU a'r UE a fyddai'n cynnwys sefydlu Ardal Fasnach Rydd newydd a chynnal llyfr rheolau cyffredin ar gyfer nwyddau, ond dim ond pan fo'r rheolau yn gofyn am archwiliadau ar y ffin. Fel rhan o hyn, byddai Llywodraeth y DU yn ceisio cyfranogiad yn asiantaethau'r UE sy'n hwyluso nwyddau'n cael eu rhoi ar farchnad yr UE. Mae o'r farn mai dim ond un mecanwaith cymeradwyo sydd ei angen ar weithgynhyrchwyr cyn rhoi cynhyrchion ym marchnadoedd y DU a'r UE.

Yn ôl y Papur Gwyn, byddai cyfranogiad parhaus yn yr asiantaethau ar gyfer sectorau sy'n cael eu rheoleiddio'n fawr o ganlyniad i risg uwch i ddefnyddwyr, cleifion neu ddiogelwch amgylcheddol. Felly mae Llywodraeth y DU yn ceisio cyfranogiad yn Asiantaeth Meddyginiaethau Ewrop (EMA), Asiantaeth Cemegolion Ewrop (ECHA) ac Asiantaeth Diogelwch Hedfan Ewrop (EASA). Fodd bynnag, dywed y Papur Gwyn na fyddai gan y DU hawliau pleidleisio a byddai'n rhaid iddi wneud cyfraniad ariannol.

### Y bartneriaeth ddiogelwch

Yn yr un modd, mae gweledigaeth Llywodraeth y DU ar gyfer y bartneriaeth ddiogelwch yn y dyfodol hefyd yn cynnwys cyfranogiad gan y DU yn asiantaethau



gorfodi cyfraith a chyfiawnder troseddol allweddol yr UE, gan gynnwys Europol ac Eurojust. Dywed y Papur Gwyn, fel Aelod nad yw'n Aelod-wladwriaeth, y bydd y DU yn derbyn rheolau'r asiantaethau hyn a bydd hefyd yn cyfrannu at eu costau. Mae Llywodraeth y DU yn dweud bod aelodaeth o asiantaethau o'r fath yn darparu fforymau ar gyfer cyfnewid arbenigedd, rhannu adnoddau, cydgysylltu ymchwiliadau a datblygu dulliau newydd ar gyfer cydweithredu.

## Cytundebau cydweithredol

Mae'r Papur Gwyn yn cynnig cytundebau cydweithredol mewn nifer o feysydd. Yn unol â hynny, lle mae'r DU wedi gwneud yr ymrwymadau hyn, dywed y papur y byddai angen i'r trefniadau llywodraethu a sefydliadol sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer cyfranogiad y DU mewn cyrff ac asiantaethau'r UE, lle mae hyn yn ofynnol er mwyn i'r cydweithrediad cytunedig ddigwydd.

Er enghraifft, mae Llywodraeth y DU yn cynnig bod y berthynas yn y dyfodol yn cynnwys cytundeb gwyddoniaeth ac arloesi sy'n galluogi cydweithrediad parhaus drwy gyfranogiad ar y cyd mewn rhwydweithiau, isadeiledd, polisïau ac asiantaethau sydd o fudd i'r DU a'r UE ar y cyd.

## Natur a strwythur cyfranogiad yn y dyfodol

Mae'r Papur Gwyn yn cydnabod y bydd natur a strwythur cyfranogiad parhaus y DU yn asiantaethau'r UE yn amrywio yn ôl yr asiantaeth dan sylw. Er enghraifft, mae darpariaeth bresennol ar gyfer cynnwys trydydd gwledydd yn Asiantaeth Diogelwch Hedfan Ewrop drwy aelodaeth y Swistir. Fodd bynnag, mewn achosion eraill, dywed Llywodraeth y DU y dylai'r berthynas yn y dyfodol fynd y tu hwnt i ddarpariaethau presennol, yn unol â dyfnder ac ehangder y berthynas arfaethedig. Er enghraifft, o ran Asiantaethau Meddyginiaethau Ewrop, mae'r papur yn cynnig:

...all the current routes to market for human and animal medicine remain available, with UK regulators still able to conduct technical work, including acting as a 'leading authority' for the assessment of medicines, and participating in other activities like ongoing safety monitoring and the incoming clinical trials framework.

Mae'r Papur Gwyn yn cydnabod y bydd cyfranogiad parhaus yn asiantaethau'r UE yn gofyn am nifer o ymrwymadau. Yn ychwanegol at barchu rheolau gweithredol yr asiantaethau ac o bosibl gwneud cyfraniadau ariannol, mae Llywodraeth y DU yn ymrwmo i barchu cylch gorchwyl Llys Cyfiawnder yr UE mewn achosion lle mae'r DU yn cymryd rhan yn asiantaethau'r UE.

## Safbwyntiau o Gymru

Yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol i **Berthynas Cymru ag Ewrop yn y Dyfodol**, dywedodd nifer o randdeiliaid y dylai'r DU geisio dod i gytundeb i gymryd rhan, neu gydweithredu ag asiantaethau'r UE, ar ôl Brexit.

At hynny, yn ei **adroddiad** (PDF, 9MB), cytunodd y Pwyllgor gyda safbwyntiau a fynegwyd gan randdeiliaid y nodwyd bod aelodaeth barhaus o Asiantaeth Feddyginiaethau Ewrop yn flaenoriaeth i Gymru. Mewn **ymateb** (PDF, 221KB) i argymhelliad y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru alw ar Lywodraeth y DU i sicrhau aelodaeth o'r fath, dywedodd y Prif Weinidog:

Rydym o blaid y syniad fod y DU yn aros yn rhan o Asiantaeth Feddyginiaethau Ewrop ar ôl Brexit, ond byddai hynny'n golygu perthynas lawer agosach â'r farchnad sengl nag yr ymddengys fod Llywodraeth y DU yn barod i'w hystyried ar hyn o bryd.

Yn fuan cyn cyhoeddi'r Papur Gwyn, **dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid wrth y Pwyllgor ar 2 Gorffennaf** fod Llywodraeth Cymru yn dal i drafod gyda Llywodraeth y DU yr asiantaethau y cred y dylent barhau i gymryd rhan.

## Barn yr UE

Mater i'r UE fydd penderfynu a yw'n barod i gynnig i'r DU barhau i gymryd rhan yn yr asiantaethau hyn. Fodd bynnag, mae Erthygl 6 o'r **Cytundeb Drafft** ar y DU yn ymadael â'r UE yn nodi na fydd y DU yn cadw aelodaeth o unrhyw asiantaethau Ewropeaidd ar ôl Brexit. Mae hyn yn adlewyrchu'r hyn sydd yng **nghanllawiau trafod** y Cyngor Ewropeaidd, sef:

A non-member of the Union, that does not live up to the same obligations as a member, cannot have the same rights and enjoy the same benefits as a member.

Daeth y Pwyllgor Materion Allanol i'r casgliad yn ei adroddiad ar y Berthynas yn y Dyfodol ei bod yn bwysig ceisio eglurder cynnar ar gyfranogiad yn y dyfodol:

If not, the UK Government needs to work urgently with the devolved governments and stakeholders to establish how any governance gaps created as a result of loss of access to these bodies will be filled.

Ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor yn archwilio sut y mae trydydd gwledydd a gwledydd a rhanbarthau is-wladwriaeth yn ymgysylltu â'r UE a sefydliadau'r UE fel rhan o'i ymchwiliad i **berthynas Cymru ag Ewrop yn y dyfodol - rhan dau.**

Awdur: Manon George

Dolen i'r erthygl ar-lein: **Y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol: Cyfranogiad parhaus yn asiantaethau'r UE**

## 9. Ynni

Cyhoeddwyd: 21 Awst

Dyma'r ddiweddaraf mewn cyfres o erthyglau sy'n edrych ar Bapur Gwyn Llywodraeth y DU ar y **Berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol**. I gael trosolwg cyffredinol o'r cynigion, darllenwch ein **herthygl blog flaenorol**.

Mae'r erthygl hon yn edrych yn benodol ar elfennau'r Papur Gwyn sy'n ymwneud ag ynni. Caiff y meysydd eu hystyried ar lefel y DU, ond maent yn berthnasol i Gymru, yn enwedig o ran diogelwch a fforddiadwyedd ynni yn y dyfodol.

### Ynni

Yn ôl **ffigurau gan Energy UK**, mae diwydiant ynni'r DU yn cyflenwi ynni i dros 26 miliwn o gartrefi a busnesau, yn darparu cyflogaeth i dros 619,000 o bobl ac yn ychwanegu £83 biliwn i'r economi bob blwyddyn. Mae unigolion a busnesau ledled y DU yn dibynnu ar gyflenwad diogel a fforddiadwy o nwy a thrydan. **Mae ffigurau o Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU** yn dangos bod yr UE wedi cyflenwi 12% o nwy a 5% o drydan i'r DU yn 2016.

Dros amser, mae'r UE a'r DU wedi gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu masnach trawsffiniol ym maes ynni. Mae'r DU wedi chwarae rhan flaenllaw yn llunio polisiau ynni'r UE, a'r systemau presennol ar gyfer masnachu nwy a thrydan rhwng gwledydd yr UE. Er enghraifft, chwaraeodd y DU ran flaenllaw yn datblygu **Marchnad Ynni Mewnol (IEM)** yr UE. Mae gadael yr UE yn golygu nad yw sefyllfa'r DU yn yr IEM yn sicr mwyach, a hefyd mae potensial i effeithio ar drefniadau ynni domestig y DU.

Yn y **Papur Gwyn** ar y berthynas yn y dyfodol rhwng y DU a'r UE, mae Llywodraeth y DU yn cynnig y bydd ei chynlluniau yn y dyfodol yn darparu ar gyfer cydweithredu economaidd-gymdeithasol mewn meysydd lle mae cysylltiad agos rhwng economi'r DU a'r UE, gan gynnwys ynni. Mae'r papur yn dweud bod yr integreiddio agos penodol rhwng Aelod-wladwriaethau'r UE yn y meysydd hyn yn adlewyrchu eu haelodaeth o'r Farchnad Sengl, a bod y DU yn cydnabod na fydd yn bosibl ail-wneud hyn yn llwyr ar ôl i'r DU adael yr UE.

## Trydan a Nwy

Mae'r DU yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu cyflenwadau ynni cost-efeithiol, glân a diogel. Mae'r DU wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid Ewropeaidd i ryddfrydoli ac agor marchnadoedd ynni, ac mae parch uchel yn cael ei ddangos i arbenigedd y sector ynni yn y DU ar draws yr EU.

Papur Gwyn Llywodraeth y DU

### Marchnad Trydan Sengl (SEM)

---

Mae Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon wedi rhannu marchnad trydan cyfanwerthu ers 2007, sy'n cael ei alw yn **Farchnad Trydan Sengl (SEM)**. Mae'n farchnad sengl gyda chyfres gyffredin o reolau, a chafodd ei sefydlu gan ddeddfwriaeth gyfochrog yn San Steffan a Senedd Iwerddon, a'i hategu gan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y ddwy lywodraeth.

Mae Llywodraeth y DU yn dweud y bydd yn ymrwymedig i hwyluso bod y SEM yn parhau rhwng Gogledd Iwerddon ac Iwerddon. Mae'n dweud bod y trafodwyr wedi gwneud cynnydd da ar ddarpariaeth gyfreithiol i ategu'r SEM yn y Cytundeb Gadael, ac y bydd y DU yn gweithio gyda'r UE i sicrhau bod y SEM yn cael ei gynnal mewn unrhyw senario yn y dyfodol.

Yn ei adroddiad, **Brexit: Energy Security**, mae Pwyllgor Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi yn disgrifio'r SEM fel rhan allweddol o'r broses heddwch, gan leihau prisiau ynni yng Ngogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon, a helpu i gyrraedd targedau datgarboneiddio.

### Rhyng-gysylltwyr

---

Mae'r Papur Gwyn yn dweud bod y DU yn chwilio am gydweithrediad ynni eang gyda'r UE, gan gynnwys trefniadau i fasnachu mewn trydan a nwy, cydweithredu ag asiantaethau a chyrff yr UE, a rhannu data i hwyluso gweithrediadau'r farchnad.

Mae masnach mewn trydan yn digwydd drwy ryng-gysylltwyr - y cysylltiadau ffisegol sy'n caniatáu i drydan symud rhwng marchnadoedd. Ar hyn o bryd, mae tri rhyng-gysylltydd rhwng Prydain Fawr ac Aelod-wladwriaethau'r UE - un i Ffrainc, un i'r Iseldiroedd, ac un i Iwerddon. Mae eraill wrthi'n cael eu datblygu, er enghraifft gyda Gwlad Belg, Norwy a Denmarc.

Yn ei adroddiad, **Brexit: Energy Security**, mae Pwyllgor Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi yn dweud bod y rhyng-gysylltwyr presennol rhwng y DU a'r UE o fudd i bawb drwy wella diogelwch ynni, lleihau costau a hwyluso'r gwaith o ddatgarboneiddio. Mae'n galw ar Lywodraeth y DU i egluro cyn gynted â phosibl pa weithdrefn rheoleiddio a fydd yn gymwys i rhyng-gysylltwyr rhwng y DU a'r UE ar ôl Brexit. Y rheswm dros hyn yw i gefnogi datblygiad pellach o'r seilwaith, gan helpu i gynnal diogelwch ynni a sicrhau bod y DU yn cyrraedd ei thargedau datgarboneiddio a hinsawdd rhyngwladol.

### Opsiynau ar gyfer perthynas ynni yn y dyfodol

---

Mae'r Papur Gwyn yn nodi dymuniad Llywodraeth y DU i archwilio opsiynau ar gyfer perthynas ynni â'r UE yn y dyfodol. Mae'n cyflwyno nifer o bosibiliadau. Un opsiwn fyddai i'r DU adael yr IEM. Dywed, yn yr achos hwn, byddai'r DU yn archwilio beth fyddai angen ei wneud i sicrhau y byddai masnach dros rhyng-gysylltwyr yn parhau heb ddyraniad capasiti awtomatig drwy'r system IEM. Opsiwn arall fyddai i'r DU gymryd rhan yn yr IEM i gadw'r arferion masnachu presennol drwy ryng-gysylltwyr. Dywed y papur, yn y senario hwn, y byddai angen i'r DU gael rheolau cyffredin gyda'r UE ar bethau technegol ar gyfer masnachu trydan, fel y mecanwaith cyfuno'r farchnad.

Yn y papur ar **Brexit a'r berthynas ynni rhwng yr UE a'r DU yn y dyfodol**, mae Energy UK yn galw ar y DU i barhau i gymryd rhan yn yr IEM er budd cwsmeriaid y DU a'r UE.

### Trefniadau technegol a rheoleiddiol

---

Mae'r Papur Gwyn yn amlygu'r manteision o gydweithredu'n agos ar drefniadau ynni technegol a rheoliadol. Dywed fod Llywodraeth y DU am archwilio gyda'r UE yr opsiynau ar gyfer cyfranogiad Gweithredwr System Trosglwyddo parhaus yn y **Mecanwaith Digolledu Gweithredwr System Rhyng-Drosglwyddo**, ac aelodaeth barhaus y Rhwydweithiau Ewropeaidd o Weithredwr System Trosglwyddo ar gyfer Trydan (**ENTSO-E**) a Nwy (**ENTSO-G**). Mae hefyd yn dweud bod y DU yn rhoi trefniadau ar waith fel y bydd gan fusnesau, wrth fasnachu ar ôl gadael, sicrwydd na fyddant yn wynebu gofynion gwahanol sylweddol o gymharu â'u rhwymedigaethau presennol o dan y Rheoliad ar Gyfanrwydd a Thryloywder Marchnad Ynni Cyfanwerthu (**REMIT**). **Dywed Energy UK** fod diwydiant ynni'r DU yn credu y dylai'r DU barhau i fod ag aliniad rheoleiddio agos gyda'r IEM yn y dyfodol.

## Niwclear Sifil

Ymunodd y DU â'r **Gymuned Ynni Atomig Ewropeaidd (Euratom)** yn 1973. Ers hynny, mae cytundebau'r DU ar fonitro diogelwch gyda'r Asiantaeth Ynni Atomig Ryngwladol (IAEA) wedi cael eu hategu gan aelodaeth y DU o Euratom. Un o swyddogaethau Euratom yw rhoi mesurau diogelu ar waith o ran deunydd niwclear ar draws aelod-wladwriaethau Euratom.

Mae'r Papur Gwyn yn dweud y bydd Llywodraeth y DU yn ceisio cael cysylltiad agos ag Euratom, ac y bydd yn berthynas newydd sy'n fwy cynhwysfawr ac eang nag unrhyw gytundeb presennol rhwng Euratom a thrydydd gwlad ac y bydd hynny'n helpu i sicrhau bod sefyllfa'r DU fel gwladwriaeth niwclear sifil blaenllaw a chyfrifol yn cael ei chynnal. Mae'n dweud y byddai hyn o fydd i'r DU a Chymuned Euratom, oherwydd budd cyffredin i sicrhau gwydnwch ynni a diogelwch yn Ewrop.

Mae Llywodraeth y DU yn cynnig y dylai'r berthynas newydd fod yn seiliedig ar Gytundeb Cydweithredu Niwclear (NCA) cynhwysfawr rhwng Euratom a'r DU a ddylai gynnwys:

- Sefydlu dulliau cydweithredu rhwng rheoleiddiwr diogelu y DU (y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear) ac Euratom, gan alluogi gweithgarwch fel cyfnewid gwybodaeth technegol, astudiaethau ac ymgynghoriadau ar y cyd ar newidiadau rheoleiddio neu ddeddfwriaethol;
- Darparu ar gyfer cymdeithas y DU â Rhaglen Ymchwil a Hyfforddiant Euratom;
- Sicrhau parhad trefniadau cytundebol ar gyfer cyflenwi deunydd niwclear, naill ai drwy ganiatáu i gontractau presennol barhau i fod yn ddilys, neu drwy ddarparu ar gyfer eu hail-gymeradwyo di-dor cyn i'r DU adael yr UE;
- Lleihau rhwystrau a symleiddio trefniadau rheoli allforio wrth fasnachu a throsglwyddo deunyddiau, cyfarpar a thechnoleg niwclear sensitif rhwng y DU a Chymuned Euratom;
- Darparu ar gyfer cydweithrediad technegol ar ddiogelwch niwclear;
- Parhau â chydweithrediad a rhannu gwybodaeth rhwng y DU ac Arsyllfa Ewropeaidd ar Gyflenwad Radioisotopau Meddygol.

Mae adroddiad Tŷ'r Arglwyddi, **Brexit: Energy Security** yn pwysleisio pa mor bwysig bod Llywodraeth y DU yn dyblygu darpariaethau Euratom erbyn y dyddiad gadael, er mwyn osgoi sefyllfa lle na allai'r DU fasnachu mewn nwyddau a gwasanaethau niwclear.

## Barn Senedd Ewrop

Ym mis Mawrth 2018, cyhoeddodd Senedd Ewrop ei **chanllawiau ar y fframwaith ar gyfer y berthynas rhwng yr UE a'r DU yn y dyfodol**. Mae'n awgrymu y gellid gwneud trefniadau trydydd gwledydd mewn perthynas ag ynni, ac mae'n dweud:

Such arrangements should respect the integrity of the internal energy market, contribute to energy security, sustainability and competitiveness and take account of interconnectors between the EU and the UK;

Expects the UK to comply with the highest nuclear safety, security and radiation protection standards, including for waste shipments and decommissioning.

## Y Comisiwn Ewropeaidd

Ar 27 Ebrill 2018, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd **Hysbysiad i Randdeiliaid** ar y DU yn gadael a'r IEM. Mae'n amlinellu nifer o ganlyniadau o reolau'r UE yn rheoliadau'r farchnad ynni nad ydynt yn gymwys mwyach yn y DU:

- **Iawndal rhwng Gweithredwyr Systemau Trosglwyddo (TSOs):** Gan y bydd y DU yn 'drydydd gwlad' ar ôl Brexit, bydd angen talu ffi defnydd system trosglwyddo ar ôl mewnforion ac allforion trydan. Mae hyn yn berthnasol i bob trydydd gwlad nad ydynt wedi mabwysiadu cytundeb lle mae'n cymhwyso cyfraith yr UE.
- **Rhyng-gysylltedd:** Mae deddfwriaeth y farchnad nwy a thrydan y DU yn nodi rheolau ar ddyrannu capasiti rhyng-gysylltedd ac yn darparu ar gyfer dulliau i hwyluso'r gwaith o'u gweithredu. O ddyddiad gadael yr UE, ni fydd gweithredwyr yn y DU yn cymryd rhan mwyach yn y platform dyrannu sengl ar gyfer capasiti rhyng-gysylltedd, y platfformau cydbwysu Ewropeaidd a'r cyfuno diwrnod cynt ac undydd. Bydd gweithredwyr y farchnad drydan a enwebir yn y DU (NEMOs) yn dod yn weithredwyr trydydd gwlad ac ni fydd hawl ganddynt mwyach i gynnal gwasanaethau cyfuno'r farchnad yn yr UE.



- **Masnachu Trydan a Nwy:** Mae'n rhaid i gyfranogwyr y farchnad o drydydd gwledydd gofrestru gyda'r awdurdodiad rheoleiddio ynni cenedlaethol yr Aelod-wladwriaeth y maent yn gweithredu ynddi.
- **Buddsoddiadau mewn gweithredwyr systemau trosglwyddo:** Mae angen i TSOs gael eu hardystio er mwyn gweithredu. Mae ardystio TSO, a reolir gan berson neu bobl o drydydd gwledydd, yn ddarostyngedig i reolau penodol.

Bydd y ddwy erthygl blog nesaf yn y gyfres yn edrych ar yr hyn y gallai goblygiadau'r cynigion yn y Papur Gwyn fod i drafnidiaeth a physgodfeydd yng Nghymru.

**Awdur:** Chloe Corbyn

**Dolen i'r erthygl ar-lein:** **Y Berthynas rhwng yr UE a'r DU yn y Dyfodol: Ynni**

## 10. Pysgodfeydd

Cyhoeddwyd: 23 Awst

Dyma'r ddiweddaraf mewn cyfres o erthyglau sy'n edrych ar Bapur Gwyn Llywodraeth y DU ar **Y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y Dyfodol**. I gael trosolwg cyffredinol o'r cynigion, darllenwch ein **blog blaenorol**.

Mae'r blog hwn yn edrych yn benodol ar elfennau'r Papur Gwyn sy'n ymwneud â physgodfeydd. Mae cynigion mwy manwl ar gyfer rheoli pysgodfeydd yn y dyfodol ar ôl ymadael â'r UE wedi'u nodi ym Mhapur Gwyn Defra ar **Bysgodfeydd Cynaliadwy ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol** a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori arno ar 4 Gorffennaf. Mae'r pwyntiau allweddol o'r papur hwn wedi'u nodi isod, ynghyd ag ymatebion cynnar rhanddeiliaid.

Mae pysgodfeydd yn faes cymhleth o ran perthynas y DU a'r UE. I gael trosolwg o bysgodfeydd Cymru a datblygiadau'r trafodaethau Brexit gweler ein blog diweddar ar **Brexit a Physgodfeydd Cymru**.

### Crynodeb

Un o brif elfennau'r Papur Gwyn yw'r bartneriaeth economaidd arfaethedig rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. Rhan allweddol o'r bartneriaeth economaidd yw creu ardal fasnach rydd newydd ar gyfer nwyddau, gan gynnwys cynhyrchion amaethyddol, cynhyrchion bwyd a chynhyrchion pysgodfeydd. Mae'r elfen hon o'r Papur Gwyn wedi'i chynnwys mewn blog blaenorol; **Y sector bwyd-amaeth**.

Mae'r neges amlwg iawn o ran pysgodfeydd a geir yn y Papur Gwyn yn ategu safbwynt Llywodraeth y DU:

On leaving the EU, the UK will become an independent coastal state under the UN Convention on the Law of the Sea (UNCLOS). As a result, the UK will control access to fish in its waters, both in territorial seas and the Exclusive Economic Zone (EEZ).

Mae'r papur yn amlygu ymrwymiad Llywodraeth y DU i weithio'n agos gydag Aelod-wladwriaethau a gwladwriaethau arfordirol eraill i sicrhau rheolaeth gynaliadwy o stociau a rennir a'r amgylchedd morol ehangach. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r papur yn cynnig:

cytuno ar fecanwaith ar gyfer trafodaethau blynyddol ar fynediad i ddyfroedd a chyfleoedd pysgota; a

hyrwyddo pysgodfeydd cynaliadwy i gyflawni ymrwymiadau rhyngwladol, fel nodau datblygu cynaliadwy.

Yn ddiddorol, dywed y papur bod mynediad at ddŵr a chyfleoedd pysgota ar wahân i gael mynediad at farchnadoedd ar gyfer pysgod a chynhyrchion pysgod. Ailadroddwyd y safbwynt hwn ar 17 Gorffennaf gan George Eustice AS mewn **tystiolaeth** i Bwyllgor Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Tŷ'r Cyffredin, pan ddywedodd:

... negotiations on fisheries access and fisheries management as being one strand under an association agreement, and trade as being an entirely separate one. We do not see the two as being connected.

Ar 14 Mawrth, fodd bynnag, mabwysiadodd Senedd Ewrop ei **safbwynt o ran y fframwaith** ar gyfer y berthynas rhwng yr UE a'r DU yn y dyfodol. Noda hwn:

... the level of access to the EU domestic market must be conditional on the level of access for EU vessels to the UK fishing grounds and their resource.

Ar 23 Mawrth, mabwysiadodd y Cyngor Ewropeaidd ei **ganllawiau negodi** ar y fframwaith ar gyfer y berthynas rhwng yr UE a'r DU yn y dyfodol. Roedd y canllawiau yn amlinellu y dylai Cytundeb Masnach Rydd rhwng yr UE a'r DU yn y dyfodol gynnwys mynediad at ddyfroedd pysgota i'r naill ochr a'r llall.

## Mynediad at ddŵr a chyfleoedd pysgota

Mae'r Papur Gwyn yn nodi y bydd unrhyw benderfyniadau ynghylch caniatáu mynediad i ddyfroedd y DU ar gyfer llongau o'r UE, neu unrhyw wladwriaethau arfordirol eraill, yn fater i'w drafod. Mae'n cynnig y dylai'r DU, yr Undeb Ewropeaidd a gwladwriaethau arfordirol eraill sydd â diddordeb gytuno i gynnal trafodaethau blynyddol ar hawliau mynediad a chyfleoedd pysgota ar gyfer fflydau'r DU, yr UE a gwladwriaethau arfordirol.

Mae'r papur yn nodi y bydd y DU yn ceisio symud oddi wrth egwyddor y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (CFP) cyfredol o sefydlogrwydd cymharol, lle mae Aelod-wladwriaethau'r UE yn cael cyfran sefydlog o gyfleoedd pysgota (cwota) yn seiliedig ar gofnodion dal hanesyddol. Bydd y symudiad tuag at ddull mwy gwyddonol o osod terfynau dal ('Cyfanswm y Ddalfa a Ganiateir' neu TAC) ar gyfer y DU, a fydd wedyn yn cael ei ddyrannu i'r gweinyddiaethau datganoledig gan ddefnyddio cofnodion dal hanesyddol o dan **Gytundeb y Concordat** 2012.

Yn ychwanegol at hyn, mae'r papur yn nodi y byddai unrhyw fynediad i ddyfroedd y DU gan longau nad ydynt wedi'u cofrestru yn y DU yn amodol ar gydymffurfio â'r un gofynion â llongau'r DU, gan gynnwys arferion cynaliadwy.

## Pysgodfeydd cynaliadwy

Mae'r Papur Gwyn yn dweud bod y DU yn bencampwr o ran datblygu cynaliadwy a chadwraeth forol. Ymhellach i ymrwymïadau sy'n rhan o **Nod Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig 14**, dywed y bydd Llywodraeth y DU yn ceisio dangos hyn drwy:

- barhau i arfer yr egwyddor cynhyrchedd cynaliadwy uchaf (MSY);
- parhau i weithio gyda phartnerïaid Ewropeaidd i reoleiddio pysgota a gosod cyfraddau cynaeafu sy'n adfer a chynnal stoc pysgod;
- ... parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i roi terfyn ar daflu pysgod yn wastraffus;
- ... cyhoeddi asesiad blynyddol o gyflwr y stociau o ddiddordeb a'n dull gweithredu o ran pennu cyfleoedd pysgota am y flwyddyn i ddod. Os bydd stociau penodol yn lleihau, bydd y Llywodraeth yn gweithio gyda phawb sydd â diddordeb i lunio a gweithredu cynlluniau adfer; a
- ... gweithio'n agos gyda'r gweinyddiaethau datganoledig, Dibyniaethau'r Goron a Thiroedd Tramor sy'n gyfrifol am fesurau cadwraeth ar gyfer stociau sydd wedi'u crynhoi yn eu dyfroedd tiriogaethol.

## Papur Gwyn ar Bysgodfeydd Llywodraeth y DU – pwyntiau allweddol

Ar 4 Gorffennaf, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei **Phapur Gwyn ar Bysgodfeydd Cynaliadwy ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol**. Mae'r Papur Gwyn hwn yn cynnwys manylion am ddulliau rheoli pysgodfeydd arfaethedig yn y dyfodol, ac yn nodi dull gweithredu arfaethedig Llywodraeth y DU o ran:

- hyrwyddo pysgodfeydd cynaliadwy;
- cytundebau mynediad a dyrannu cwotâu;
- Rheoliadau technegol y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (PPC);
- fframwaith newydd y DU; a
- diwygio dulliau rheoli pysgodfeydd.

Mae'r Papur Gwyn yn egluro'n glir ei bod yn ddogfen bolisi Llywodraeth y DU, a bydd graddau'r darpariaethau yn dibynnu ar y pwerau presennol a'r hyn y cytunir arno rhwng y gweinyddiaethau:

... some will have UK-wide extent; others will apply to England only, others to England and the Devolved Administrations that wish to adopt them.

Dywed y Papur Gwyn nad yw Llywodraeth y DU yn bwriadu newid y dull o ddyrannu'r cwotâu presennol. Mae adroddiad gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP), **Goblygiadau Brexit i Gyfleoedd Pysgota yng Nghymru**, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, yn nodi y dyrennir llai nag 1 y cant o gyfanswm cwota pysgota'r DU i Gymru, a dim ond tua 0.02 y cant o gwota pysgota'r UE i gyd. Er mwyn galluogi diwydiant pysgota Cymru i dyfu, dywed y WCPP:

... as any increases would accrue to existing UK quota holders, the Welsh fleet requires a different arrangement of quota sharing within the UK to get its fair share.

## Ymateb rhanddeiliaid

Gan fod manylion y dulliau rheoli pysgodfeydd arfaethedig yn y dyfodol wedi'u cynnwys yn y **Papur Gwyn ar Bysgodfeydd Cynaliadwy ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol**, ymddengys mai ychydig o ymateb a fu gan rhanddeiliaid i elfennau pysgodfeydd y Papur Gwyn ar y berthynas â'r UE yn y dyfodol. Amlinellir ymatebion cynnar rhanddeiliaid i'r Papur Gwyn ar bysgodfeydd isod.

Nod y Papur Gwyn ar bysgodfeydd yw hybu pysgodfeydd cynaliadwy drwy ddilyn dull ecosystemau yn unol â **Chynllun yr Amgylchedd 25 mlynedd** Llywodraeth y DU. Dywed y bydd yn sicrhau bod cadw at arferion cynaliadwy yn rhag-amod ar gyfer unrhyw fynediad i'n dyfroedd yn y dyfodol:

We will continue to apply the principle of Maximum Sustainable Yield (MSY) when setting or agreeing total allowable catches (TACs), and we will promote fishing within MSY ranges in line with international scientific advice on mixed fisheries.

Mae'r **Gymdeithas Cadwraeth Morol** wedi dweud bod y dull gweithredu hwn yn llawer rhy annelwig, a bod cyfeiriadau at gynaliadwyedd yn y Bil Pysgodfeydd newydd yn brin o ymrwymïadau i egwyddorion ac amcanion allweddol sy'n hanfodol ar gyfer cynaliadwyedd. Mae **Adolygiad yr RSPB** yn atseinio hyn, ac yn

ychwanegu y bydd peidio â sicrhau bod sail gyfreithiol i ddull gweithredu ecosystem yn arwain at fod pysgodfeydd y DU yn llai cynaliadwy.

Mae'r Papur Gwyn yn nodi nad ydym eto yn gwybod canlyniad trafodaethau'r DU ar ymadael â'r UE nac ar bartneriaeth economaidd yn y dyfodol, ac felly, mae'r pwerau a gynigiwyd ... wedi'u datblygu i sicrhau y gallwn ymateb yn hyblyg ac yn gyflym. Mae ymatebion cynnar rhanddeiliaid, fodd bynnag, unwaith eto'n beirniadu'r Papur Gwyn am fod yn amhendant. Dywed y **New Economics Foundation**

It is incredibly dangerous to make all policy change conditional on certain Brexit outcomes.

Mae'r diffyg manylion yn y Papur Gwyn yn thema gyffredin yn yr ymatebion gan rhanddeiliaid amgylcheddol, ac roedd **ClientEarth** yn croesawu'r cynigion, ond eto yn dweud:

The government's plans for fisheries after Brexit are promising but alarmingly devoid of detail about its environmental commitments

Mae dadansoddiad **Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau Pysgotwyr (NFFO)** yn fwy cadarnhaol, yn dweud bod y Papur Gwyn ar bysgodfeydd ... yn cyd-fynd yn eithaf agos â'r hyn y mae diwydiant pysgota'r DU ei eisiau ac yn ei ddisgwyl. Fodd bynnag, mae'n tynnu sylw at feysydd lle mae angen rhagor o waith, yn arbennig o ran Cymru:

How to operate a system of devolved responsibilities within an overall UK framework is underdeveloped in the White Paper.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cyflwyno Bil Pysgodfeydd yng Nghymru. Cadarnhawyd hyn gan Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig mewn **tystiolaeth a gyflwynwyd** i Bwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Cynulliad cyn craffu ar Brexit ar **18 Gorffennaf**.

Gofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch amserlenni ar gyfer Bil Pysgodfeydd yng Nghymru, ac ymatebodd gan ddweud:

In relation to a Welsh fisheries Bill, I haven't got a timescale ... I would imagine the fisheries Bill I will be looking to go out to consultation on towards the end of this year, maybe early next year, in preparation.

Pan ofynnwyd am ei barn ar **Bapur Gwyn y DU ar Bysgodfeydd** dywedodd:

I think I've been very clear right from the beginning that I don't support the current allocation process. It favours big business, and I think it's led to a commercialisation of fishing opportunities.

Bydd y blog nesaf yn y gyfres yn edrych ar yr hyn y gallai goblygiadau'r cynigion yn y Papur Gwyn fod i drafnidiaeth yng Nghymru.

**Awdur:** Lorna Scurlock

**Dolen i'r erthygl ar-lein:** **Y Berthynas rhwng y DU a'r UE yn y Dyfodol:**  
**Pysgodfeydd**

## 11. Trafnidiaeth

Cyhoeddwyd: 24 Awst

Yr erthygl hon yw'r olaf yn ein cyfres yn trafod y Papur Gwyn a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2018 gan Lywodraeth y DU ar berthynas y DU a'r UE yn y dyfodol, a materion yn ymwneud â thrafnidiaeth sy'n cael eu trafod y tro hwn.

Mae'r Papur Gwyn yn gosod safbwynt Llywodraeth y DU ynghylch trafndiaeth awyr, ffyrdd, rheilffyrdd a'r môr – meysydd y mae Llywodraeth y DU yn credu y byddai'n ddymunol cydweithredu arnynt. Fodd bynnag, gan fod blaenoriaethau Llywodraeth y DU o ran rheilffyrdd yn canolbwyntio ar ddod i gytundebau dwyochrog ag Iwerddon, Ffrainc, Gwlad Belg a'r Iseldiroedd ynghylch teithio trawsffiniol drwy dwnnel y Sianel ac ar ynys Iwerddon, mae'r erthygl hon yn canolbwyntio ar yr agweddau sy'n uniongyrchol berthnasol i Gymru.

Roedd ymateb rhanddeiliaid trafndiaeth y DU a diwydiannau cysylltiedig i'r Papur Gwyn yn weddol gadarnhaol, ond roedd yr ymateb i'r Papur Gwyn gan Michel Barnier yn llai cadarnhaol o ran materion allweddol megis masnach hwylusedig a thollau. Gyda'r posibilrwydd y bydd pwysau o Frwsel am gyfaddawdu pellach ac y bydd **y DU yn ymwrthod â hynny**, mae dyfodol cynigion y Papur Gwyn ymhell o fod yn sicr.

Er yr ymddengys fod cytundeb yn ymddangos i fod yn agos mewn meysydd allweddol megis trafndiaeth awyr, o ystyried egwyddor arweiniol yr UE na chaiff dim byd ei gytuno hyd nes y bydd popeth yn cael ei gytuno, cynhelir trafodaethau dros y misoedd nesaf sydd o bwys i bawb dan sylw, gan gynnwys y sector trafndiaeth.

Wrth i'r erthygl hon gael ei phostio, dechreuodd Llywodraeth y DU gyhoeddi **canllawiau ar sut i baratoi ar gyfer Brexit os na fydd cytundeb**.

### Trafnidiaeth awyr

Mae rôl yr UE ym maes trafndiaeth awyr yn cwmpasu tri maes allweddol: trafndiaeth awyr y farchnad sengl (Ardal Hedfan Gyffredin Ewrop neu'r ECAA); Cytundebau Trafnidiaeth Aer dwyochrog gyda gwledydd nad ydynt yn yr UE); a mentrau ar draws yr UE sy'n ymwneud â diogelwch (Asiantaeth Diogelwch Hedfan Ewrop, neu EASA) a rheoli traffig awyr (Awyr Sengl Ewropeaidd).



Er bod **cyfraith ryngwladol** yn gymwys i drafnidiaeth awyr, cyfyngedig yw'r trefniadau wrth gefn a gynigir. Daeth y **Sefydliad Llywodraethu** i'r casgliad pe na byddai cytundeb, byddai'r DU, ar y mwyaf, yn parhau i fwynhau'r pum "Rhyddid Awyr" cyntaf o'r naw ar ôl ymadael â'r UE. Ym mis Tachwedd 2017, dywedodd Cyfarwyddwr Cyffredinol y Gymdeithas Trafnidiaeth Awyr **wrth Glwb Hedfan y DU**:

When the UK leaves the European Single Market, it will also leave the European Common Aviation Area. And when it breaks from the European Union, all traffic rights to the rest of the world associated with Europe will also be thrown into question. And, as we all know, the basis of international aviation is bilateral air services agreements. There is no WTO agreement to fall back on. For that reason, I don't see any alternative to a negotiated agreement.

Mae'r Papur Gwyn yn ffurfioli safbwynt Llywodraeth y DU fel y'i nodir yn ei **fframwaith ar gyfer partneriaeth trafndiaeth rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol**, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018, ac mae'n cynnig:

- Cytundeb Trafnidiaeth Awyr a fyddai'n galluogi cludwyr y DU a'r UE i weithredu eu gwasanaethau i diriogaeth y DU a'r UE, o'r diriogaeth honno ac o'i mewn, a hynny ar sail gydradd;
- Cydweithredu agos wrth reoli traffig awyr yn ogystal â chydweithredu agos o ran diogelwch awyr;
- Parhau i fod yn rhan o'r EASA, sef y corff sy'n datblygu ac yn monitro rheolau cyffredin ynghylch diogelwch a'r amgylchedd ar lefel Ewropeaidd, ac sy'n darparu arbenigedd technegol, hyfforddiant ac ymchwil.

Yn ogystal â thrwyddedu peilotiaid a'u hyfforddi, a thrwyddedu awyrennau, mae EASA hefyd yn ardystio injans a rhannau ar gyfer awyrennau ac yn cymeradwyo sefydliadau i'w dylunio. Mae hyn yn gwneud y sefydliad yn ganolog wrth fasnach a gweithgynhyrchu yn y DU yn y sectorau hedfan a'r awyrofod. Mae cytundeb ar EASA yn bryder mawr i weithgynhyrchwyr a chyflenwyr awyrennau ar draws y DU, **gan gynnwys Airbus**.

Fe wnaeth canllawiau Brexit y Cyngor Ewropeaidd ym mis Mawrth 2018 (PDF 296KB) nodi y dylid cael cytundeb trafndiaeth awyr ochr yn ochr â chytundebau diogelwch hedfan fel rhan o'r nod ehangach o sicrhau cysylltedd parhaus. Fodd bynnag, tra bo **Llywodraeth y DU** a'r **Comisiwn Ewropeaidd** ill dau wedi darparu

rhywfaint o fanylion ychwanegol ar eu sefyllfa a'u blaenoriaethau, nid yw'r cytundeb wedi'i gwblhau eto.

Mae ymateb y diwydiant awyrennau i'r Papur Gwyn wedi bod yn lled-gadarnhaol. Fe wnaeth **y Sefydliad Gweithredwyr Meysydd Awyr (AOA)** groesawu'r Papur Gwyn, gan alw am gadarnhad cynnar ynghylch cael cytundeb ymadael a'r trafodaethau cynnar rhwng Awdurdod Hedfan Sifil y DU ac EASA.

Yn yr un modd, croesawodd y **Sefydliad Gweithgynhyrchwyr Awyrennau Cyffredinol (GAMA)** y cadarnhad hirddisgwyliedig ynghylch y nod o fod yn rhan o EASA, yn ogystal â chynigion ar dollau a nwyddau a weithgynhyrchir. Fodd bynnag, tynnodd GAMA sylw at nifer o gwestiynau a oedd yn dal heb eu hateb – gan gynnwys trefniadau ar gyfer symudiad personél awyrennau – a galwyd ar EASA a CAA i ddechrau deialog â'r diwydiant.

Â chyhoeddiad maes awyr Caerdydd yn ei adroddiad blynyddol ym mis Ionawr 2018 fod 8 o'r 10 ehediad uniongyrchol mwyaf poblogaidd yn teithio o fewn 27 aelod-wladwriaeth yr UE, bydd y maes awyr, sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru, yn cadw llygad craff ar y negodiadau. Er bod y Papur Gwyn yn mynd i'r afael â rhai o'r materion a nodwyd gan **y maes awyr mewn tystiolaeth (PDF 153KB)** i Bwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol (MADY) y Cynulliad ym mis Chwefror – megis bod yn rhan o'r farchnad hedfan sengl ac EASA – mae'r maes awyr yn debygol o fod yn awyddus i gael mwy o fanylion a chynnydd solet.

Mae hefyd yn eithaf clir nad yw'r maes awyr wedi cael popeth o'r hyn y mae ei eisiau. Er enghraifft, cynigiodd y dylai fod gan y DU hawliau pleidleisio o fewn yr EASA – a wrthodwyd yn ddatganedig yn y Papur Gwyn – a galwodd am gadarnhad ynghylch safbwynt y DU mewn perthynas â mewnfudo sydd eto i gael ei nodi mewn manylder.

## Trafnidiaeth ffyrdd

Mae cyfraith yr UE **yn rheoli agweddau arwyddocaol o dtrafnidiaeth ffyrdd (PDF 87 KB)**, gan gynnwys: trwyddedu gyrrwyr ac amser gweithio; mynediad i broffesiynau; cludo nwyddau yn rhyngwladol a chludo teithwyr ar fysiau a choets.

Fel y diwydiant awyrennau, mae safonau'r UE hefyd yn berthnasol i weithgynhyrchu cerbydau ffyrdd. Drwy'r broses **cymeradwyo math**, bydd awdurdodau cymeradwyo penodedig ar gyfer aelod-wladwriaethau, gan gynnwys **awdurdod tystysgrifau cerbydau** y DU yn cadarnhau bod samplau cynhyrchu cerbydau yn bodloni safonau penodol. Mae'r diwydiant a defnyddwyr ffyrdd yn **cefnogi'r** safonau yn eang.

Er bod safonau a chytundebau rhyngwladol yn bodoli fel sefyllfa "wrth gefn", mae'r rhain yn fwy cyfyngedig na fframwaith mewnol a fframwaith cyfreithiol yr UE. Er enghraifft, bydd y **system cwota amlochrog** ar gyfer trwyddedau cludiant ffordd ar draws Ewrop yn cynnig rhywfaint o ddarpariaeth ar gyfer **croes fasnachu**, ond ac eithrio **masnach arforol**.

famYn yr un modd â thrafnidiaeth awyrr, bydd cytundeb ar gymeradwyo math cerbydau hefyd yn fater mawr i ddiwydiant yng Nghymru gan fod sector moduron Cymru yn cynnwys tua 150 o gwmnïau, ac amcangyfrifir iddynt gyflogi 18,000 o bobl a chynhyrchu £3 biliwn i'r economi yn flynyddol.

Mae'r Papur Gwyn yn ymrwymo i ystyried opsiynau ar gyfer mynediad cyfatebol i lorïau cludo nwyddau a gweithredwyr cludo teithwyr, a threfniadau ar gyfer moduro preifat. Rhoddodd fframwaith Llywodraeth y DU ar gyfer partneriaeth trafndiaeth yn y dyfodol (uchod) fanylion pellach ar flaenoriaethau negodi'r Llywodraeth, gan alw am gynnal:

- mynediad rhydd i gludo nwyddau ar lorïau, gan gynnwys masnach arforol a thraws-fasnachu;
- teithio trawsffiniol rhydd mewn bws neu goets; a
- rhyddid dinasyddion i yrru yn y DU a'r UE heb wiriadau a dogfennaeth ychwanegol.

Mae'r Papur Gwyn hefyd yn cyfeirio at y **Ddeddf Cofrestru Trwyddedau Cludo ac Ôl-gerbydau 2018** a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 19 Gorffennaf. Mae'r Ddeddf yn creu'r model ar gyfer nifer o amgylchiadau, gan gynnwys Brexit 'dim bargaen'. Byddai'n caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol ymdrin â chanlyniadau ystod o

senarios ymadael ar ddiwydiant cludo'r DU trwy greu cynllun trwyddedau cludiant rhyngwladol.

O ran safonau cerbydau, dywed y Papur Gwyn y byddai'r fframwaith cyffredin ar gyfer nwyddau a weithgynhyrchir yn cynnwys y system gymeradwyo ar gyfer pob categori o gerbydau modur. Fodd bynnag, mae'r UE eisoes wedi bwrw ymlaen i **ddeddfu** ar ddileu awdurdodau cymeradwyo math y DU o system yr UE.

Cafodd y Papur Gwyn dderbyniad cadarnhaol yn gyffredinol gan y **Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau**. Fodd bynnag, er bod Dirprwy Brif Weithredwr y Sefydliad, James Hookham, yn cydnabod ymdrechion i fynd i'r afael â phryderon y sector, dywedodd fod llawer y mae angen ei ddeall o hyd ynghylch elfennau ymarferol masnach yn y dyfodol.

Mae'r Sefydliad Cludo ar Ffyrdd wedi dweud nad yw'r Papur Gwyn yn mynd yn ddigon pell, gyda Phrif Weithredwr y Sefydliad, Richard Burnett, yn mynegi pryderon nad yw'n mynd i'r afael â symudiad cerbydau nwyddau trwm, a dywed nad yw'r Papur Gwyn yn cynnig dim sicrwydd ynghylch trefniadau trwyddedu yn y dyfodol. Er iddo groesawu'r cynigion ynghylch tollau, dywed y Sefydliad Cludo ar Ffyrdd nad yw'r Papur Gwyn yn gwneud dim mwy nag awgrymu fframwaith i reoli symudiad pobl, a phwysleisiodd fod ar y diwydiant cludo angen recriwtio o'r UE.

Mae'r goblygiadau i Gymru o gytundeb ar drafnidiaeth ffyrdd yn arwyddocaol.

**Fe wnaeth ychydig dros 650,000 o gerbydau teithwyr** a 524,000 o lorïau a threlars ategol deithio drwy borthladdoedd Cymru yn 2016, ac roedd y lorïau yn cario tua 80% o'r holl nwyddau a gafodd eu cludo ar gerbydau nwyddau trwm cofrestredig o lwerddon yn pasio rhwng Gweriniaeth Iwerddon ac Ewrop. Gallai Brexit sy'n arwain at leihau'r traffig cludo nwyddau hwn esgor ar ganlyniadau economaidd sylweddol i borthladdoedd Cymru a'u hardaloedd cyfagos. Â chyfanswm y **nwyddau a gariwyd i Gymru** yn 2016 yn cyrraedd 234,000 o dunelli, a chyda 294,000 tonnall yn cael ei allforio, nid cludiant drwy Gymru yw'r unig beth y bydd cytundeb ar drafnidiaeth ffyrdd yn effeithio arno.

## Trafnidiaeth a phorthladdoedd morol

Mae cyfraith a pholisi'r UE yn effeithio ar nifer o agweddau ar gludiant morol, yn enwedig y farchnad fewnol ar gyfer **gwasanaethau cludo morol** ac ystod o hawliau, rhwymedigaethau a buddion ar sail cyfraith yr UE, gan gynnwys: **masnach arforol**; **gwasanaethau porthladdoedd**; cyflogaeth, amodau gwaith a hyfforddiant **morwyr**; ac **Asiantaeth Diogelwch Morwrol Ewrop (EMSA)**.

Fodd bynnag, mae **sleidiau'r Comisiwn Ewropeaidd ar Brexit a chlodiant** yn nodi i ba raddau y bydd y gyfraith ryngwladol yn cynnig sefyllfa wrth gefn ar gyfer mynediad i'r farchnad (ac eithrio masnach arforol) a threfniadau rheoleiddio ar gyfer diogelwch, diogelwch, amgylchedd a rheolau llafur. Yn yr un modd, mae'r Papur Gwyn yn tynnu sylw at y ffaith bod y sector morol yn cael ei rhyddfrydoli ar lefel fyd-eang fel y bydd gweithredwyr llongau yn y DU ar ôl Brexit, gan mwyaf, yn gallu gwasanaethu porthladdoedd yr UE fel y maent nawr. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU yn cynnig parhau i gydweithio'n agos â'r UE ac EMSA.

Testun pryder ar fwy o fyrder i borthladdoedd Cymru a'r DU a'u cwsmeriaid fydd y trefniadau yn y dyfodol ar gyfer masnach. Bydd cynigion y Papur Gwyn ar gyfer dim tariffau ar nwyddau a weithgynhyrchir a bwyd-amaeth, ar gyfer llyfr rheolau cyffredin ynghylch nwyddau (gan gynnwys bwyd-amaeth) ac ar gyfer Trefniant Tollau Hwylusedig (FCA) i gael gwared ar yr angen am wiriadau tollau yn sylweddol iawn i borthladdoedd y DU.

Yn ystod ei **ymchwiliad yn 2017 i oblygiadau Brexit ar borthladdoedd Cymru**, fe glywodd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol dystiolaeth yn amlinellu'r bygythiadau posibl ar borthladdoedd Cymru drwy adael yr Undeb Tollau.

Roedd dystiolaeth gan **Irish Ferries (PDF 463KB)** yn crybwyll cynnydd o 694% yn y nwyddau a gludir rhwng Caergybi, sef ail borthladd 'llwytho a dadlwytho' mwyaf y DU, a Dulyn ers cwblhau'r Farchnad Sengl yn 1993 - twf a hwyluswyd yn rhannol gan y ffaith nad oedd angen i'r porthladd gynnal ardaloedd manau sefyll ar gyfer gwirio tollau. Roedd Irish Ferries yn dadlau bod rhaid i'r DU osgoi dychwelyd i gyfundrefn tollau yn y porthladdoedd.

Yn yr un modd, cyfeiriodd **Grŵp Porthladdoedd Cymru o Gymdeithas Porthladdoedd Prydain (BPA) (PDF 228KB)** at y goblygiadau ehangach posibl yn sgil gwiriadau tollau fel "amhariad sylweddol" ar draffig llwytho a dadlwytho rhwng Cymru ac Iwerddon gan arwain at gynnydd yn y costau cludo nwyddau sy'n "cael eu trosglwyddo i fewnforwyr, gwneuthurwyr a defnyddwyr".

Mae'r ymateb ers cyhoeddi Papur Gwyn **y BPA ar lefel y DU** wedi bod yn gadarnhaol - gan ganolbwyntio'n benodol ar y Trefniadau Tollau Hwylusedig a'r llyfr rheolau cyffredin ar gyfer nwyddau. Nododd RHA (uchod) hefyd y bydd "y datblygiadau cyntaf o ran tollau yn arwain at drefniadau ffiniau a fydd yn gweithio'n dda ar gyfer cadwyni cyflenwi".

Roedd **Siambwr Llongau'r DU** hefyd yn gadarnhaol, gan ddisgrifio'r Papur Gwyn fel "cynnig busnes cyfeillgar cynhwysfawr ar gyfer perthynas y DU / UE yn y dyfodol". Fodd bynnag, mae'n nodi'r angen am ragor o fanylion ar dollau a masnach, ac mae'n tynnu sylw at y ffaith bod mewnfudo yn parhau i fod yn bryder i'r diwydiant gwasanaethau morol. Gan gyfeirio at y diffyg cyfeiriad penodol i forwyr, mae'n nodi cyfeiriadau ehangach at gyflogaeth ardystiedig a chydweithrediad ag EMSA. Wrth drafod y rhain mae'n awgrymu y cedwir gallu morwyr i gael mynediad symlach i gyflogaeth ar longau dynodedig yr UE a'r DU.

Er bod derbyniad y sector trafndiaeth wedi bod yn gadarnhaol, mae'r goblygiadau yn parhau i fod yn uchel i'r sector ac i'w gwsmeriaid. Bydd llawer yn chwilio am arwyddion o eglurder yn dilyn y trafodaethau i sicrhau y gall Cymru barhau i symud ar 30 Mawrth 2019 a thu hwnt.

Awdur: Andrew Minnis

Dolen i'r erthygl ar-lein: **Y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol: Trafnidiaeth**